



Adroddiad Blynyddol
**Cyfarwyddwr Statudol
y Gwasanaethau
Cymdeithasol**
2019 - 2020



Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad	11
3. Sut Mae Pobl yn Llunio Ein Gwasanaethau?	17
4. Hybu a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn Eu Helpu.....	25
Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni.	
25	
Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl.	
37	
Safon Ansawdd 3: Amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag niwed.	
41	
Safon Ansawdd 4: Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas.	
50	
Safon Ansawdd 5: Cynorthwyo pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.....	
52	
Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i gyflawni mwy o lesiant economaidd, bod â bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.	
57	
5. Sut Yr Ydym Yn Gwneud Yr Hyn Yr Ydym Yn Ei Wneud	63
6. Mynediad at Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol	72



1. Cyflwyniad

Fel y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Cyngor Sir Penfro mae'n bleser gen i allu adrodd ar y modd yr ydym wedi cyflawni gwelliannau ar gyfer llesiant pobl sydd wedi cael mynediad at ein gwasanaethau yn ystod 2019/20. Fel rhan o swyddogaeth statudol fy swydd mae'n ofynnol i mi adrodd ar ba mor dda y mae'r adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn perfformio.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud a'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn. Rwyf hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol, 2020/21. Fodd bynnag, cafodd llawer o'n cynlluniau ar gyfer 2020/21 eu haddasu a'u gohirio i'n galluogi i ymdrin yn effeithiol â'r ymateb i bandemig COVID.

1.1. Ein Heriau

Fel mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol. Yn 2019/20 roedd angen i ni gyflawni rhaglen lleihau costau o fwy na £6 miliwn ar draws yr adran. Mae ein gwaith atal a rheoli'r galw ynghyd â llawer o fentrau eraill yn ein cynorthwyo i leihau gwastraff a gweithredu ffyrdd mwy effeithlon o weithio wrth i ni ymgeirio i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Rydym hefyd wedi wynebu heriau o ran recriwtio staff gofal a gwaith cymdeithasol profiadol, i rolau gwaith cymdeithasol ac i roi gofal yn uniongyrchol. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y materion hyn trwy roi Cynllun Datblygu'r Gweithlu ar waith. Nod y cynllun yw sicrhau bod gennym weithlu effeithiol, â sgiliau priodol a chydnerth sydd mewn sefyllfa i ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Rydym yn dal i fod â ffocws ar gynorthwyo staff yn yr Awdurdod Lleol i gymhwyso'n weithwyr cymdeithasol, sef yr hyn yr ydym yn cyfeirio ato fel 'tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain'.

Mae recriwtio a chadw staff gofal uniongyrchol yn Sir Benfro'n anodd hefyd, yn enwedig ym maes gofal Cartref. Mae angen llwybrau gyrfa da ym maes gofal cartref a gofal iechyd i ddenu cyflogaion i'r diwydiant. Mae hon yn nodwedd allweddol i ni er mwyn goresgyn yr heriau o ran gweithlu'r sector.

1.2. Ein Ffyrdd o Weithio

Ynghyd â gweddill y Cyngor rydym yn gweithio yn ôl yr egwyddorion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyfeirir at y rhain fel y pum ffordd o weithio sy'n ein galluogi i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac i gynorthwyo pobl i'w helpu eu hunain. Mae defnyddio'r egwyddorion yn sicrhau ein bod yn defnyddio golwg



‘Hirdymor’ wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, ein bod yn canolbwyntio ar ‘Atal’ ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau wedi’u ‘Hintegreiddio’n’ llwyr â chymunedau ac asiantaethau eraill. Rydym yn ‘Cydweithio’ gyda’n defnyddwyr gwasanaethau a’n partneriaid ac yn eu ‘Cynnwys’ wrth ddatblygu gwasanaethau. Rwy’n trafod drwy’r adroddiad hwn sut yr ydym wedi bod yn rhoi gweithgareddau atal ar waith trwy ddatblygu cymunedau dyfeisgar a grymuso pobl.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda gweddill gwasanaethau’r Cyngor ac asiantaethau allweddol eraill i ddarparu a datblygu ystod o wasanaethau i bobl y mae angen ein cymorth ni arnynt. Rydym hefyd yn cydweithio’n agos gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn y Trydydd Sector. Gyda’n partneriaid rydym wedi datblygu cynllun ardal rhanbarthol sy’n nodi bwriadau strategol Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gyflawni’r amcanion hyn mewn ffordd sy’n ein galluogi i ganolbwyntio ar hybu a gwella llesiant y bobl yr ydym yn eu cefnogi.

Mae a wnelo ein model ymarfer ag adeiladu ar gryfderau ac asedau pobl ac fe gyfeirir ato fel y dull Arwyddion Diogelwch (Signs of Safety). Rydym wedi bod yn rhoi’r dull Arwyddion Diogelwch, a ddatblygir yn draddodiadol o fewn Gwasanaethau Plant, ar waith ar draws yr adran. Yn ystod 2020/21 byddwn yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o’r dull i sicrhau ei fod yn dal i wella ymarfer a chanlyniadau i’n pobl.

1.3. Ein Hamcanion

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda’n timau, ar draws gwasanaethau’r cyngor megis addysg, tai a hamdden, hefyd gyda phartneriaid strategol allweddol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, a’r trydydd sector i sicrhau bod amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu cyflawni’n llwyddiannus. Ar gyfer 2019/20, roedd y rhain fel a ganlyn:

- Dal i wella canlyniadau addysg fel bod pob plentyn yn cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag y meddyliai y gallai wneud
- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal: gan helpu pobl i barhau â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain yn hytrach na mynd yn ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol
- Gwneud Sir Benfro yn gystadleuol, cynhyrchol a llewyrchus yn economaidd, yn lle gwych i ymweld ag ef, i fyw yno a gweithio.
- Darparu tai o ansawdd da er mwyn darparu diogelwch, llesiant ac ansawdd bywyd i drigolion Sir Benfro
- Byddwn yn hyrwyddo balchder yn Sir Benfro, gan geisio gwella ei henw da fel lle am ansawdd amgylcheddol rhagorol

Yn ystod 2018/19 fe gyhoeddodd Aelodau ein Cyngor eu Rhaglen Weinyddu, sy’n ddatganiad gwleidyddol gan Gabinet y Cyngor ar ei flaenoriaethau hyd at 2022. O ran Gofal Cymdeithasol,



nododd y Cabinet y byddai ffocws parhaus ar atal, diogelu a thechnoleg. Fe wnaethant hefyd gymeradwyo'r dull Arwyddion Diogelwch sy'n cael ei roi ar waith ar draws yr adran gyfan.

Caiff popeth a wnawn ym maes Gofal Cymdeithasol ei danategu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf). Mae'r Ddeddf yn darparu chwe Safon Ansawdd ar ein cyfer. Y gwaith yr ydym wedi'i wneud tuag at gyrraedd y safonau hyn yw prif gorff yr adroddiad hwn.

Y Safonau Ansawdd yw:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni.
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl.
- Amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag niwed.
- Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas.
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.
- Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i gyflawni mwy o lesiant economaidd, bod â bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Rydym wedi rhoi ystod o brosiectau ar waith i roi cymorth i gyrraedd y safonau hyn; rwyf wedi amlygu rhai o'r meysydd gwaith hyn isod:

- Yn y Gwasanaethau Oedolion un o'r camau gweithredu allweddol i ni oedd datblygu a thyfu tîm y Cyngor ar gyfer gofal cartref a ddarperir yn uniongyrchol, sydd bellach â chyfran o 9% o'r farchnad. Roedd hwn yn uchelgais allweddol a nodwyd yn y rhaglen weinyddu.
- Mewn partneriaeth fe sefydlom ni dîm Gofal Integredig sy'n gweithio i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain a'u galluogi i gynnal eu hannibyniaeth hyd y gellir trwy ddarparu ystod o opsiynau cymorth gofal a meddygol sylfaenol. Roedd y tîm yma yn ei le ar ddechrau pandemig COVID ym mis Ebrill 2020.
- Yn y Gwasanaethau Plant fe gynhaliom ni ffocws ar recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth a bod yn rhieni corfforaethol cryf. Fe ddechreuom ni ddatblygu Strategaeth 3 blynedd i Leihau Niferoedd y Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC).
- Fe sefydlom ni fodel cymorth coleg preswyl gyda Choleg Sir Benfro i alluogi pobl ag anableddau dysgu i aros mewn addysg bellach yn Sir Benfro.
- Rydym wedi dechrau cam 1 y broses i roi uned mamau a babanod ar waith. Bydd yr uned yn galluogi mamau a babanod i aros yn nes at adref tra bo'u hanghenion yn cael eu diwallu.



1.4. Defnyddwyr Ein Gwasanaethau a'n Partneriaid


Fel mewn blynyddoedd blaenorol, eleni rydym wedi ymgynghori ag ystod eang o bobl a'u teuluoedd. Bydd yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn cael ei ddefnyddio i oleuo darpariaeth gwasanaethau gofal a chymorth yn y dyfodol. Rwyf wedi cynnwys nifer o gyflwyniadau fideo i chi eu gweld isod. Mae'r fideos hyn yn dangos sut yr ydym, trwy gydweithio, wedi gallu cynorthwyo pobl i wella'u llesiant.

Gwylwch yr hyn sydd gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau i'w ddweud am ystod o'n gwasanaethau trwy glicio ar y dolenni fideo isod.

Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed yn Sir Benfro



Yn Sir Benfro, rhoddir gofal, triniaeth a chymorth mewn perthynas â defnyddio alcohol a chyffuriau eraill gan Gyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol Sir Benfro, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed a CAIS



Mae Matt, Hannah a Maria ill tri wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn yn barod ar gyfer cwblhau cyfnod adsefydlu preswyl yn Nhŷ Brynawel ac ar gyfer cymorth ôl-ofal.





Mae gan bobl ag anabledd neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio'r un hawl i waith am dâl â phawb arall.



Eiriolaeth



Cefnogi Pobl ag Anableddau Dysgu trwy lunio amserlenni bysiau hawdd i'w darllen.



Cafodd Mandy a'i mam eu cyfeirio at y gwasanaeth **Cysylltwyr Cymunedol** gan weithiwr cymdeithasol. Dyma eu stori nhw.




Prosiect Rhyddhau Amser i Ofalu

Mae ein prosiect rhyddhau amser i ofalu wedi'i fwriadu i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o offer yr oes fodern, sydd o gymorth i symud a thrin pobl. Nid yn unig y mae hyn yn creu pecynnau gofal effeithlon, mae hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd a rheolaeth i bobl dros eu gofal.



Dod â phobl ynghyd, creu cyfleoedd creadigol



Prosiect gan Span Arts



Côr o Bell
Astudiaeth achos ar gyfer cynyddu llesiant
trwy gelfyddyd



1.5. Ein Harolygwyr

Mae ein Harolygwyr rheoleiddiol, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cynnal nifer o ymweliadau â ni yn ystod y flwyddyn. Mae crynodeb mwy cynhwysfawr o ganfyddiadau ein Harolygwyr ar gael ym Mhennod 2.

1.6. Ein Cyflawniadau

Mae'n dda gennyf allu nodi bod rhai o'n cyflawniadau wedi cael eu cydnabod yn genedlaethol. Cafodd Cyngor Sir Penfro ei enwi'n 'Gyflogwr Ysbrydoledig' mewn seremoni yng Nghaerdydd i gyflogwyr o Gymru. Cyflwynwyd y wobwr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae'n cydnabod y gwaith y mae wedi'i wneud trwy Diwydiannau Norman a Gweithffyrdd+ i gynorthwyo pobl ag anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor i gael gwaith â thâl. Diwydiannau Norman yw ein ffatri yn Hwlfordd sy'n cyflogi pobl ag anableddau. Casglwyd y wobwr gan Karen Davies – rheolwr prosiectau ar gyfer prosiectau cyflogadwyedd â chymorth y Cyngor a Rachel Bailey a oedd yn gyfranogwr yn y prosiect Gweithffyrdd+ ac sydd bellach yn gweithio i'r Awdurdod fel Hyrwyddwr Cyflogadwyedd Pobl ag Anableddau Dysgu.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n gweithio yn yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r partneriaid sy'n ein cefnogi am yr ymrwymiad y maent wedi'i ddangos i ddefnyddwyr ein gwasanaethau trwy gydol y flwyddyn.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau a all fod gan bobl am yr adroddiad hwn er mwyn i ni allu gwella'r ffordd yr ydym yn disgrifio'r hyn yr ydym yn ei wneud i gefnogi pobl â'r hyn sydd o bwys iddynt.

Jonathan Griffiths
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol



2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad

Yn yr adran hon rwy'n darparu trosolwg o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Rwyf wedi adolygu'r galw am wasanaethau ac wedi adnabod rhai o'r meysydd lle mae ein perfformiad wedi dirywio. Byddwn yn rhoi nifer o gamau gweithredu ar waith yn ystod 2020/21 gyda golwg ar wella perfformiad yn y meysydd hyn.

2.1. Gofal i Oedolion

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o ran pa mor llwyddiannus fu'r gwasanaeth gofal i oedolion o ran cyflawni eu hamcanion llesiant a gwasanaeth ar gyfer 2019/20.

Y llynedd fe ddwedom ni y byddem yn parhau i ddatblygu ein model ataliol i reoli'r galw am ein gwasanaethau. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r trydydd sector ac ystod eang o fentrau cymorth cymunedol i gynorthwyo pobl yn eu hamgylchedd cartref.

Mae'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid gorfforaethol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a'u cysylltwyr cymunedol, Croesffyrdd, Age Cymru a llawer o sefydliadau eraill yn parhau i ymateb ar y cyd i reoli'r galw am wasanaethau oedolion yn ystod 2019/20 trwy roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy.

Mae cyfanswm y cysylltiadau dros y ffôn a thrwy'r e-bost a gafwyd gan ein Canolfan Gyswllt gorfforaethol wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf o 43,219 yn 2016/17 i 29,389 yn 2019/20. Rydym ni'n credu bod y nifer wedi gostwng am bod cwsmeriaid bellach yn gallu cael gafael ar fwy o wybodaeth yn eu cymuned trwy ystod o fentrau cymunedol. Mae'r teclyn Infoengine a chyfeiriadur gwybodaeth Dewis Cymru'n darparu cyfleuster ar-lein i bobl ei ddefnyddio. Cefnogir ein gofalcwyr trwy Croesffyrdd yr ydym yn eu comisiynu i roi gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i bobl.

Yr hyn sydd hefyd yn nodedig yw bod nifer yr atgyfeiriadau newydd ar gyfer gwasanaethau a wnaed gan y ganolfan gyswllt wedi gostwng o 6,603 yn 2016/17 i 4,018 yn 2019/20. Mae hyfforddiant manylach ar gyfer y ganolfan gyswllt a darparu mynediad at fwy o wybodaeth i roi cyngor a chynhorthwy yn y pwynt cyswllt cyntaf wedi golygu y bu gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau dyblyg ac amhriodol.

Mae ein timau gofal cymdeithasol hefyd yn cwblhau llai o asesiadau nag a wnaethant mewn blynyddoedd blaenorol. Eleni fe gwblhaom ni 2,154 o asesiadau o'i gymharu â 3,191 o asesiadau yn 2016/17.



O dan ein dull rheoli'r galw rydym wedi gallu rheoli'r galw demograffig cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion. Mae Tabl 1 yn dangos y galw dros y 4 blynedd ddiwethaf am yr ystod o wasanaethau gofal i oedolion. Fe effeithiwyd ar ffigyrau 2019/20 gan COVID gyda llawer o rwydweithiau teuluol yn dewis rhoi gofal a chymorth i'w perthnasau mewn rhai achosion er mwyn lleihau'r risg o ddal y feirws.

Nifer yr oedolion a oedd yn defnyddio amryw wasanaethau ar 31 Mawrth				
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Gofal Cartref	1530	1326	1118	1128
Gofal Dydd	771	695	675	630
Gofal Dydd â Chymorth yn y Gymuned	57	57	57	50
Llety â Chymorth	161	178	221	292
Seibiant	237	328	236	372
Gofal Preswyl	641	767	812	902
Nyrsio	95	90	92	185

2.1.1 Taliadau Uniongyrchol

Blaenoriaeth allweddol yn 2019/20 oedd creu ymwybyddiaeth well o daliadau uniongyrchol. Ym mis Mawrth 2019 roedd gennym 318 o bobl a oedd yn defnyddio taliadau uniongyrchol ac erbyn mis Mawrth 2020 roedd hyn wedi cynyddu i 362. Hefyd, rydym yn gweithio gyda'r gymuned a'r cynllun Catalyddion Cymunedol i roi anogaeth i greu busnesau gofal a chymorth bach iawn y cyfeirir atynt fel microfusnesau i ddiwallu anghenion gofal pobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol.

Yn ystod 2020/21 byddwn yn adolygu ein harlwy taliadau uniongyrchol i adnabod a chyflawni gwelliant ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r nifer sy'n dewis yr opsiwn yma.

2.1.2 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

Rydym wedi gweld cynnydd yn ein cyfradd ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod 2019/20. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl yn gorfod aros am yn hwy yn yr ysbyty cyn y gallwn drefnu bod gwasanaethau yn eu lle i'w galluogi i ddychwelyd i'w cartref. Mae swm yr arian yr ydym yn ei wario ar welyau gofal interim a rhyddhau o'r ysbyty'n cynyddu. Rydym ni'n credu bod hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd y diffyg cyflenwad o ofalwyr cartref sydd ar gael a byddwn yn canolbwyntio ymdrechion ar recriwtio a chadw gofalwyr. Byddwn yn amcanu at barhau i wella perfformiad yn y maes hwn yn ystod 2020/21 trwy:

- gefnogi ein darparwyr gofal, yn enwedig gyda'u hymateb i bandemig COVID;
- rhoi anogaeth i ddatblygu busnesau bychain y cyfeirir atynt fel microfusnesau i roi gofal;



- cynyddu maint gwasanaeth gofal cartref y Cyngor a fydd yn rhoi inni'r hyblygrwydd i ymateb i'r bobl hynny â'r anghenion mwyaf mewn modd amserol;
- agor Tŷ Martello fel cyfleuster gofal canolradd ag 8 gwely yn ardal Doc Penfro;
- gwreiddio'r tîm gofal canolradd sy'n gallu darparu gwasanaeth ymateb yn gyflym i atal pobl rhag dod i mewn i'r ysbyty ac i gefnogi rhyddhad amserol o'r ysbyty pan fo'n briodol;
- agor dwy uned o lety ail-alluogi ar safle cartrefi gofal Hillside a Havenhurst. Bydd y byngalos hyn yn galluogi pobl i adael yr ysbyty'n gynharach gan eu bod yn cael eu cefnogi â gofal ychwanegol a chyfleoedd ail-alluogi mewn amgylchedd sy'n cefnogi ac yn hybu annibyniaeth.

2.1.3 Ailalluogi

Yn ystod 2018/19 roeddem yn ymwybodol bod dirywiad wedi bod yng nghanran y bobl a oedd wedi cwblhau cyfnod o ailalluogi ac a oedd heb becyn gofal chwe mis yn ddiweddarach o 78% yn 2016/17 i 59% yn 2017/18. Yn ystod 2019/20 fe wnaethom drosglwyddo'r gwasanaeth ailalluogi'n ôl o fewn gweithrediad uniongyrchol y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad hwn. Mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Cyngor ac mae'n elfen allweddol o'n llwybr gofal canolradd integredig.

2.1.4 Adennill Costau

Mae ein prosiect adfer dyledion wedi arwain at adennill £1 miliwn ers dechrau arno yn 2018/19. Byddwn yn datblygu'r prosiect hwn ymhellach yn 2020/21 trwy roi ein Polisi Codi Tâl Tecach a'n Polisi Adfer Dyledion ar waith i sicrhau ein bod yn codi am wasanaethau mewn ffordd deg a chyfiawn.

2.2. Gwasanaethau Plant

2.2.1 Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal

Yn ystod 19/20, cafodd 92% o'r asesiadau gofal plant eu cwblhau o fewn y graddfeydd amser. Roedd hyn yn ddirywiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd oedi wrth recriwtio gweithwyr cymdeithasol gofal plant.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu'n gyson dros y 3 blynedd ddiwethaf: ar 31 Mawrth 2017 roedd 36 o blant, 59 ym mis Mawrth 2018 a 71 ym mis Mawrth 2019.

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau yr oedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn wedi gostwng o 206 yn 2018/19 i 169 yn 2019/20. Rydym ni'n credu y dylai plant gael eu cynorthwyo i aros gartref am gyhyd ag y bo'n ddiogel iddynt wneud hynny. I gyflawni hyn



rydym wedi cyflwyno rhaglenni cymorth fel Break4Change, sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl ifanc ac wedi helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd o 127 ym mis Mawrth 2017 i 153 ym mis Mawrth 2019 a 183 ym mis Mawrth 2020. Yn ystod 2019/20 fe ddechreuom ni fynd ar drywydd lefelau lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal fel a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru. Yn 2020/21 byddwn yn amcanu at leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal trwy gymryd y camau gweithredu canlynol:

- bod dim un plentyn yn dod yn blentyn sy'n derbyn gofal oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Mae ein timau asesu gofal plant, plant mewn angen a phlant ag anableddau'n gweithio'n galed i gynorthwyo plant i aros o fewn eu teuluoedd, gyda chymorth sylweddol gan y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd, y tîm Ar Ffiniau Gofal a'r Tîm Ymyriadau Teuluol. Bydd ein Tîm Rhianta Corfforaethol yn parhau i weithio gyda theuluoedd a phlant i ddirymu gorchmynion lle mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.
- monitro nifer y plant sy'n derbyn gofal yn wythnosol ac fe gytunwyd na fyddwn yn gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau heblaw gyda rhieni/perthnasau/ffrindiau. Y rheswm dros hyn yw bod rhagfynegi'r niferoedd sy'n cael eu rhoi mewn gofal, neu a allai ddod yn agos at gael eu rhoi mewn gofal, yn amhosibl, ac felly'n gwneud unrhyw ymgais i dargedu 'lleihad' yn amhosibl hefyd;
- sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli gyda rhieni/perthnasau/ffrindiau yn aros ar orchmynion gofal am yn hwy nag sy'n angenrheidiol i'w cadw'n ddiogel;
- penodi gweithiwr cymdeithasol ychwanegol ar sail fyrdymor, gan ddefnyddio cyllid Ar Ffiniau Gofal o'r Gronfa Gofal Integredig, er mwyn canolbwyntio ar ddirymu Gorchmynion Gofal mewn perthynas ag 8 o blant;
- gwella'r ddarpariaeth pecynnau a gwasanaethau cymorth i ofalwyr plant sy'n destun Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, er mwyn annog mwy o ofalwyr i fynd ar drywydd gorchmynion o'r fath, ac i roi hyder i CAFCASS a'r farnwriaeth bod hwn yn opsiwn mwy ffafriol na gosod plentyn gyda pherthynas ar orchmyn gofal.

2.3. Arolygiadau Rheoleiddiol

Yn ystod 2019/20 fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) adolygu perfformiad Cyngor Sir Penfro o ran cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol. Maen nhw'n adolygu gwasanaethau yn erbyn pedwar maes allweddol: Llesiant, Pobl, Partneriaethau ac Atal. Caiff eu canfyddiadau eu crynhoi isod.



2.3.1. Llesiant

Cynhaliodd AGC astudiaeth â phwyslais penodol a oedd yn canolbwyntio ar bobl dros 65 oed a oedd yn gallu aros gartref yn dilyn ymyrraeth integredig. Canfu fod hybu annibyniaeth a chanlyniadau personol yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio. Cymeradwyodd y ffaith ein bod yn defnyddio model yn seiliedig ar gryfderau ac amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi llesiant pobl.

Canfu fod angen gwelliant o ran cynnal adolygiadau mewn modd amserol fel y gellid mynd i'r afael ag anghenion newidiol. Byddant yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y maes hwn yn 2020/21.

Fe amlygon nhw welliannau mewn perfformiad o ran nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion yr ymdriniwyd â hwy o fewn 7 diwrnod o 66% ym mis Ionawr 2019 i 87% erbyn mis Hydref 2019.

2.3.2 Pobl

Nododd AGC fod gan y Cyngor ffocws ar iechyd a llesiant eu cyflogeion gyda nifer o fentrau yn eu lle. Canfu fod staff y cyfwelwyd â hwy'n gadarnhaol ynglŷn â chefnogaeth y rheolwyr a'r uwch reolwyr.

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn 2019/20, canfu fod rhai problemau wedi bod gyda'r gallu i recriwtio cyflogeion addas a bod y Cyngor wedi gorfod defnyddio staff asiantaeth i sicrhau darpariaeth. Gall recriwtio staff gofal cartref brofi'n anodd hefyd gan arwain at oedi cyn darparu pecynnau gofal cartref. Mae'r tîm lleoli gyda theuluoedd wedi bod yn gweithio ar sail ranbarthol i wella'r broses o recriwtio gofalwyr maeth.

Nododd yr arolygiaeth fod y Cyngor yn uchelgeisiol o ran datblygu gwasanaethau newydd a bod hyn wedi cael ei ddangos trwy recriwtio i dair swydd datblygu newydd i gyflawni gwelliannau i wasanaethau ym maes llety, gofal cartref a chartrefi gofal i bobl hŷn.

Canfu fod y bobl y cyfwelodd â hwy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarparwyd iddynt ond bod rhai pobl yn rhwystredig am nad oedd gwybodaeth yn cael ei darparu ar adegau pwysig, ac am bod oedi wrth gael y cymorth cywir. Cafodd ymatebion cymysg gan ofalwyr mewn perthynas â diwallu eu hanghenion yn llawn.

Nododd AGC fod gwelliannau wedi cael eu gwneud gyda'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) trwy gyflwyno swydd rheolwr arweiniol a thair swydd Aseswr Budd Pennaf. Mae'r ôl-groniad o asesiadau'n cael sylw yn awr ond maent yn parhau i godi a gostwng fel y maent mewn rhannau eraill o Gymru.



2.3.3 Atal

Nododd AGC fod y Cyngor wedi buddsoddi mewn gwasanaethau atal ac y dylai'r gyllideb hon sicrhau gostyngiad hirdymor yn y galw. Amlygodd ddatblygiad y dull catalydd cymunedol i gefnogi datblygiad busnesau bychain iawn, a fydd yn cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr Taliadau Uniongyrchol.

Canfu'r arolygiaeth enghreifftiau lle'r oeddem wedi cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau allweddol ynglŷn â darparu gwasanaethau. Canfu hefyd fod ein hyrwyddwyr Anabledd Dysgu wedi cymryd rhan mewn cyfweiliadau a chynadleddau fel cyfranwyr allweddol.

O ran meysydd i'w datblygu nododd AGC fod angen i'r Gwasanaeth Lleoli gyda Theuluoedd wreiddio proses fwy cyson ar gyfer cynnal cyfarfodydd tarfu i sicrhau bod diwedd pob lleoliad yn cael ei reoli'n effeithiol.

2.3.4 Partneriaethau

Roedd enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth a ddangoswyd i'r arolygiaeth yn cynnwys integreiddio'r adran Tai â Gofal Cymdeithasol ac arwain ar ffrydiau gwaith rhanbarthol megis eiriolaeth a datblygu'r gweithlu.

Fe nododd y newidiadau sylweddol a oedd wedi digwydd o ganlyniad i greu'r gwasanaeth gofal cartref a weithredir gan y Cyngor a'r gwasanaeth ailalluogi newydd a arweinir gan therapiwteg.

Yn ystod cyfweiliadau fe wnaeth rhai aelodau o staff yr arolygwr yn ymwybodol bod angen gwella cyfathrebu rhwng gofal cymdeithasol a staff ar wardiau ysbytai er mwyn osgoi prosesau cymhleth o atgyfeirio ac ail-atgyfeirio pobl at wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol.

2.3.5 Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Oherwydd yr amgylchiadau nas rhagwelwyd mewn perthynas â'r pandemig cyfredol mae AGC yn adolygu ac yn ystyried ei chynllun gwaith ar gyfer 2020-21.



3. Sut Mae Pobl yn Llunio Ein Gwasanaethau?

Ar draws y gyfarwyddiaeth rydym wedi bod yn ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalmwr a'u teuluoedd er mwyn cael dealltwriaeth well am sut y gallwn lunio gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn darparu ciplun o'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud a sut y byddwn yn ei ddefnyddio i lunio datblygiad ein gwasanaethau yn y dyfodol.

Eleni rydym wedi parhau i weithio ar wneud ein gwybodaeth yn haws i'w deall. Mae pobl wedi ein hysbysu eu bod weithiau'n ei chael yn anodd deall yr wybodaeth yr ydym yn ei hanfon atynt. Er mwyn mynd i'r afael â hyn rydym wedi comisiynu peth hyfforddiant ar ddeunyddiau hawdd i'w darllen ar gyfer cydweithwyr ym maes gofal cymdeithasol ac ar gyfer swyddogion allweddol sy'n gweithio mewn adrannau eraill ar draws y sefydliad. Rydym wedi prynu nifer o drwyddedau ar gyfer meddalwedd i greu deunydd hawdd i'w ddarllen fel bod mwy o wasanaethau'n gallu cynhyrchu gwybodaeth hawdd i'w darllen.

Mae ein Grŵp Cyfathrebu Cyflawn yn ymrwymedig i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bawb. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, y Bwrdd Iechyd a'u gwasanaeth iaith a lleferydd a Diwydiannau Norman. Ymhlith pethau eraill, maent wedi sicrhau bod yr amserlenni bysiau lleol bellach yn rhai hawdd i'w darllen. Cliciwch isod i weld eu ffilm.



3.1. Beth oeddem yn bwriadu ei wneud y llynedd?

Roeddem yn bwriadu ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol yn ystod 2019/20.

- Cefnogi datblygiad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi'i neilltuo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer craffu gan Aelodau.



- Cynnal ymgynghoriadau a digwyddiadau ymgysylltu pellach gyda'n plant sy'n derbyn gofal er mwyn cael golwg fwy cynhwysfawr ar ein gwasanaethau o'u safbwynt hwy ac adnabod gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.
- Gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i roi cymorth i gyflawni'r fenter 'Newid Mwyaf Arwyddocaol'.
- Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu ein datganiad o sefyllfa'r farchnad ar gyfer gofal cartref.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â gofalywyr i ddatblygu opsiynau seibiant gan adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i arallgyfeirio'r opsiynau seibiant sydd ar gael.
- Ymgynghori ynghylch modelau newydd ar gyfer gofal canolradd a darpariaeth gwasanaethau dydd a fydd yn gwella'r canlyniadau i bobl.

3.2. I ba raddau y gwnaethom lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

3.2.1 Ymgysylltu ag Aelodau ein Cyngor

Yn ystod 2019/20 fe gyfrannom ni at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi dull mwy cynhwysfawr o graffu ar arferion a darparu gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol. Fe graffodd aelodau ar ein perfformiad, gwaith cynllunio'r gweithlu, ein gwaith ataliol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a llawer o destunau eraill trwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am y pwyllgor hwn gan gynnwys agendâu a chofnodion ar gael ar [wefan](#) y Cyngor

3.2.2 Arolwg o'r Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant

O ran plant a phobl ifanc roeddem yn awyddus i wella ar yr 13 o ymatebion a gawsom yn y flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2019/20 fe gyfwelom ni â 59 o blant er mwyn deall pa mor fodlon oeddent ar y gwasanaethau y maent yn eu cael.

Dywedodd cyfanswm o 91% o'r plant eu bod yn hapus gyda'r bobl y maent yn byw gyda hwy a dywedodd 8% arall eu bod yn hapus 'weithiau'. Ni ddynododd unrhyw blant nad oeddent yn hapus.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth yr oeddent wedi'u cael ar y cyfan atebodd 96% gan ddweud 'ydw'. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â 2018/19 pan ddywedodd 69% eu bod yn hapus. Pan ofynnwyd iddynt a oedd yr help yr oeddent wedi'i gael wedi gwneud pethau'n well iddynt dywedodd 88% ei fod, 8% ei fod 'weithiau' ac atebodd 1 plentyn gan ddweud nad oedd wedi gwneud pethau'n well.



Yn ystod y cyfweiliadau, caiff unrhyw feysydd sy'n achosi pryder eu cyfeirio at y gweithiwr cymdeithasol neu'r tîm perthnasol fel eu bod yn gallu gweithio gyda'r person ifanc i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud ar eu cyfer.

3.2.3 Arolwg o'r Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Oedolion

Eleni nid oedd gofyniad i ni gynnal Arolwg o'r Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Oedolion ond roeddem yn teimlo y byddai o fudd i ni ddeall beth oedd pobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau'n ei feddwl o ansawdd y gwasanaethau yr oeddent yn eu cael.

O ran pa mor fodlon oedd pobl ar y gofal a'r cymorth a gawsant yn ystod y flwyddyn dywedodd 76% eu bod yn 'fodlon iawn' ar y cymorth sy'n gynydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (62%).

O ran gofalmwyr dim ond 42% oedd yn teimlo'u bod yn cael 'llawer o gefnogaeth' gyda 25% arall yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth o bryd i'w gilydd.

Nododd cyfanswm o 96% o bobl eu bod wedi gallu cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith. Nododd tri o bobl nad oeddent wedi gallu cael y gwasanaeth yn eu dewis iaith.

3.2.4 Newid Mwyaf Arwyddocaol

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein Model Newid Arwyddocaol i werthuso ein gwasanaethau. Mae'r ffilm astudiaeth achos yn dangos y dull mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cysylltwr Cymunedol.



Model ar gyfer gwerthuso gwir effaith gwasanaethau ar unigolion yw **Newid Mwyaf Arwyddocaol**.

"Mae'r **Cysylltwyr Cymunedol** yn edrych ar yr unigolyn a'i lesiant fel cyfanwaith. Mae'r ffordd y maent yn gweithio'n canolbwyntio i raddau helaeth ar yr unigolyn, gan edrych ar yr hyn sy'n bwysig i'r person ac sydd ar gael yn ei gymuned leol, nid dim ond gwasanaethau statudol. Maent yn galluogi pobl i fod â dewis ac maent yn greadigol o ran sut y cynigir cymorth"
*Safbwynt gweithiwr cymdeithasol am **Gysylltwyr Cymunedol**.*



3.2.5 Gwasanaethau Ataliol i Blant

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd, addysg a'r trydydd sector er mwyn darparu ystod o sesiynau ymgysylltu a gweithgareddau. Ar y cyfan cynhaliwyd 6 sesiwn yn ystod gwyliau'r haf mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y Sir. Roedd sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer mis Chwefror hefyd ond oherwydd y tywydd bu'n rhaid eu canslo.

Fe wnaeth cyfanswm o 1,188 o gyfranogwyr fwynhau gweithgareddau a oedd yn cynnwys coginio, sgiliau coedwig, gweithgareddau chwaraeon a thasgau gwyddoniaeth i enwi dim ond ychydig. Mae'r sylwadau a gafwyd ar ôl y digwyddiadau'n dangos cymaint y mae defnyddwyr ein gwasanaethau'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan.



Byddwn yn parhau i adeiladu ar lwyddiant y gweithgareddau hyn yn ystod 2019/20.

3.2.6 Trawsnewid Cyfleoedd Dydd

Yn 2018/19 fe wnaethom ymrwymo i adolygiad o'n gwasanaethau dydd er mwyn iddynt allu cael eu halinio'n agosach â diwallu anghenion pobl yn awr gan bod teimlad eu bod yn draddodiadol neu wedi dyddio. Ein nod oedd cyd-ddylunio model newydd ar gyfer darparu gwasanaethau gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd a'n partneriaid strategol. Fe gynhaliom ni 13 o ddigwyddiadau cyd-gynhyrchu yn ystod mis Chwefror 2019. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, i sicrhau y cynhyrchir model manwl ar gyfer ymgynghori pellach ac i'w roi ar waith yn ystod 2020/21. Mae effaith COVID wedi achosi oedi gyda pheth o'r gwaith hwn ond mae hefyd wedi ein galluogi i fynd ati ymhellach i ailystyried y model gweithredu yn y dyfodol.



3.2.7 Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos eleni gyda phobl ag Anableddau Dysgu er mwyn iddynt allu ein cynorthwyo ni a'n partneriaid i roi ein Strategaeth Anableddau Dysgu ar waith.

3.2.8 Gwobrau Sbotolau

Fe gynhaliom ni seremoni wobrwyo yn Folly Farm i ddathlu cyflawniadau'r holl Blant sy'n Derbyn Gofal.



3.2.9 Gwella ymgysylltiad Gofalwyr â Chynllunio ar gyfer Rhyddhau a Throsglwyddo Gofal

Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid mewn awdurdodau lleol wedi ymgymryd â dull system gyfan i gefnogi ac ennyn ymgysylltiad Gofalwyr â chynllunio rhyddhad cleifion a sicrhau yr eir ati'n frwd i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy ar gyfer yr holl ofalwyr. Sefydlwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar draws y tair sir ar gyfer prosiect peilot gyda darparwyr Gofal presennol yn y trydydd sector.

Mae Swyddogion Gofalwyr wedi bod yn gweithio mewn ysbytai ers mis Ionawr 2020. Mae'r Swyddogion Gofalwyr wedi bod yn datblygu cysylltiadau ac yn codi ymwybyddiaeth o Ofalwyr di-dâl ym mhob ysbyty gan gynnwys gyda Chwirydd ar Wardiau, Caplaniaid Ysbytai, Penaethiaid Nyrsio, Timau Cyswllt Rhyddhau, Gwasanaethau Cymorth Cancer MacMillan a Thimau Cyswllt â Chleifion. Mae'r adborth gan staff yn galonogol, gydag adrannau'n awyddus i ymgysylltu o ran sut y gall eu timau roi cymorth gwell i Ofalwyr.

Mae gwaith wedi parhau hefyd i gryfhau cysylltiadau ag Infoengine a DEWIS i sicrhau bod gwybodaeth am Ofalwyr ledled y rhanbarth yn berthnasol, yn gyfoes ac yn hygyrch.



3.3. Ein Blaenoriaethau Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer 2020/21

Byddwn yn parhau i gynnal cyswllt â defnyddwyr gwasanaethau i gyd-gynhyrchu model newydd o gyfleoedd dydd. Byddwn yn adolygu ein model Taliadau Uniongyrchol ar gyfer darparu gwasanaethau er mwyn adnabod gwelliannau yn y dyfodol a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r model.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â'n Plant sy'n Derbyn Gofal a Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion er mwyn i ni allu monitro bodlonrwydd ar wasanaethau ac adnabod meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

O ran cyflogeion byddwn yn llunio cylchlythyr misol i rannu arfer gorau, newyddion da a gwybodaeth ar draws y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai. Byddwn hefyd yn datblygu safle'r fewnwyd fel bod cyflogeion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth y maent yn chwilio amdani'n gyflym ac yn rhwydd.

3.4. Cwynion a Chanmoliaeth

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth diduedd ar gyfer ein holl achwynwyr rydym yn gweithio'n agos gyda'r tîm cwynion corfforaethol sy'n monitro ein perfformiad, yn cynnal cyswllt â'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'r ombwdsmon, pan fo'n briodol, ac yn rhoi dadansoddiad blynyddol i ni o'n perfformiad. Rydym yn ymrwymedig i ddysgu o gwynion ac mae argymhellion yn cael eu rhoi ar waith mor gyflym â phosibl. Mae cysylltiadau agos yn eu lle gyda'n prosesau Sicrhau Ansawdd ac Archwilio hefyd er mwyn i ni allu profi bod gwelliannau wedi cael eu rhoi ar waith. Rydym yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd o gwynion gyda'n partneriaid allweddol gan ddefnyddio "gwersi a ddysgwyd" i oleuo a gwella ein hymarfer proffesiynol.

3.4.1 Cwynion

Cafodd y gwasanaeth Gofal i Oedolion 47 o gwynion yn 2019/20, a oedd yn llai na'r 59 a gafwyd y flwyddyn flaenorol.

Cafodd y Gwasanaethau Plant 26 o gwynion yn ystod 2019/20, a oedd yn llai na'r 31 a gafwyd y flwyddyn flaenorol.

Yn ystod 2019-20 cafodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 5 cwyn mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n ostyngiad o'i gymharu â 7 yn 2018-19. Fe arweiniodd hyn at y canlyniadau canlynol:

- Gwrthodwyd 1 fel cwyn gynamserol ac fe gynghorwyd y cleient i ddilyn Proses Gwynion y Cyngor;



- Fe ymdriniwyd ag 1 fel datrysiad cynnar;
- Gwrthodwyd 1 gan nad oedd unrhyw gam gweithredu'n ofynnol.

Fe wnaed nifer o welliannau i'r broses ymdrin â chwynion yn ystod 2019/20:

- sefydlwyd proses i sicrhau atgyfeiriadau prydlon at y Swyddogion Cwynion Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod graddfeydd amser statudol yn cael eu bodloni;
- cynhaliwyd nifer o gyrsiau hyfforddi ar y broses cwynion ac ymchwilio;
- adolygwyd polisiau a gweithdrefnau a threfniadau rheoli ffeiliau;
- datblygwyd pecyn gwybodaeth am gwynion i'w ddefnyddio gan reolwyr mewnol ac ymchwilyr annibynnol allanol;
- cynhaliwyd ymgynghoriadau â Thîm Safonau Cwynion yr Ombwdsmon i wella'r modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.

Fe wnaed nifer o welliannau i wasanaethau o ganlyniad i ganfyddiadau o ymchwiliadau i gwynion:

- diweddarau'r Polisi Anifeiliaid Anwes ar gyfer Gofalwyr Maeth a chysylltu â'r RSPCA i ddarparu hyfforddiant;
- negeseuon yn atgoffa i ddilyn y Polisi Goruchwyllo a chadw cofnodion yn brydlon mewn perthynas â nodiadau goruchwyllo;
- nodi newidiadau i bolisiau a chymryd camau cysylltiedig i ddiweddarau'r system rheoli achosion gofal cymdeithasol.



3.4.2 Cwynion

Cafodd y Gwasanaethau Plant 48 canmoliaeth yn ystod 2019/20 a oedd ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (46). Cafodd y gwasanaeth Gofal i Oedolion 58 canmoliaeth a oedd yn fwy na'r 38 a gafwyd y flwyddyn flaenorol –

Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig rhoi gwybod i chi bod fy nhad wedi bod yn ffynnu yn y Ganolfan Ddydd i'r fath raddau fel fy mod yn teimlo bod ei fwynhad a'i hapusrwydd wedi effeithio'n gadarnhaol ar ei ieched. Mae wedi cael cymaint yn llai o ymweliadau â'r meddyg eleni, mae ei hwyliau ar y cyfan wedi gwella'n fawr ac ers i Havenhurst fod yn gweithio gyda Theatr Torch a Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ni allaf ond dweud y bu gwelliant amlwg yn ei ieched a llesiant ar y cyfan.

Gofal a Reolir i Oedolion

... fe wnaeth y cymorth a gynigiodd Tara i S a'i mam weddnewid bywyd S. Mae hi bellach yn ymgysylltu â'r coleg ac wedi parhau i weithio i wneud newidiadau cadarnhaol ar ei chyfer hi ei hun ac yn ei pherthnasoedd teuluol.

Tîm o Amgylch y Teulu

Hoffwn ddiolch i'r holl staff yn Havenhurst am yr holl ofal a gefais pan oeddwn yno; roedd fel cartref oddi cartref.

Tîm Gofal Havenhurst

Gan feddyg – “Dymunaf amlygu'r hyn sydd yn fy nhyb i'n enghraifft o ymarfer rhagorol ym maes gwaith cymdeithasol ac o ran gwneud penderfyniadau dan amgylchiadau anodd iawn. Cafwyd ymwneud Dîm Gofal Plant y Gwasanaethau Cymdeithasol a arweiniodd at Gynhadledd Achos lle cafodd ei baban heb ei eni ei osod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar adeg ei eni. Rwy'n ymwybodol bod gweithwyr cymdeithasol yn aml yn cael eu beirniadu am eu gweithredoedd; fodd bynnag, hoffwn ganmol gweithredoedd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Benfro yn yr achos hwn. “

Tîm Gofal Plant

Roedd arnaf eisiau diolch i chi am y cymorth yr ydych wedi'i roi i'n cleient a'r cymorth a'r tawelwch meddwl y mae hynny yn ei dro wedi'i roi i mi; rwyf wir yn gwerthfawrogi faint o amser ac egni yr ydych wedi'u rhoi i mewn i'r achos hwn a sut yr ydych wedi eirioli ar ei rhan a'i chefnogi. Rwy'n teimlo fy mod wedi dysgu llawer o'ch ymwneud chi ac mae wir yn tawelu fy meddwl i wybod eich bod chi a'ch tîm ar gael i gleientiaid pan fo wir angen help arnynt

Tîm Diogelu Integredig

“Roedd yn bleser cwrdd â chi heddiw, diolch am bopeth yr ydych wedi'i wneud i G. Roeddwn i'n meddwl eich bod chi wedi ymdrin â materion yn y ffordd fwyaf proffesiynol a thosturiol ac mae gen i bob hyder ein bod wedi dod i'r casgliad cywir gyda'n gilydd. Roedd yn galonogol gweld G mewn ysbryd mor dda

Tîm Rhyddhau ar y Cyd



4. Hybu a Gwella Llesiant y Rhai yr Ydym yn Eu Helpu

Mae llesiant unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae dyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn cefnogi llesiant y bobl hynny y mae angen ein gofal a'n cymorth ni arnynt. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dangos sut yr ydym wedi bod yn gweithio tuag at hybu a gwella llesiant pobl sy'n byw yn Sir Benfro.

Rydym wedi cysylltu'r gwaith yr ydym yn ei wneud â'r chwe Safon Ansawdd Genedlaethol. Ar gyfer pob safon ansawdd rydym yn adolygu sut y gwnaethom berfformio'r llynedd yn erbyn ein blaenoriaethau a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20.

Safon Ansawdd 1: Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno'u cyflawni.

4.1.1 Beth oeddem yn bwriadu ei wneud y llynedd?

Gwasanaethau Atal

Roeddem yn bwriadu gweithio ar barhau i ddatblygu gwasanaethau ataliol a'u rhoi ar waith ar draws gwasanaethau oedolion a phlant er mwyn gwella canlyniadau ac i reoli'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol statudol. Roedd hyn yn un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn y cynllun corfforaethol yn ystod 2019/20 ac mae'n ategu amcanion y rhaglen weinyddu. Rydym ni'n credu, trwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynharach, ein bod yn gallu lleihau'r galw am ofal statudol. Trwy feithrin capasiti, cydnherthedd a dyfeisgarwch mewn cymunedau, gallwn achosi oedi cyn bod angen gofal cymdeithasol neu hyd yn oed atal yr angen amdano. Roeddem hefyd yn bwriadu asesu'r angen i ddatblygu canolfannau integredig i deuluoedd a chyfleusterau cymunedol fel bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar gymorth 'galw heibio'.

Roeddem yn bwriadu gwerthuso ein gwasanaeth cysylltwr cymunedol a defnyddio'r canfyddiadau i oleuo model darparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Roeddem hefyd yn bwriadu datblygu cysylltiadau cryfach â'n Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned sy'n ceisio datblygu mentrau megis: hyrwyddwyr cymunedol; bancio amser; cymunedau tosturiol; gwirfoddoli a chyfeillio rhwng y cenedlaethau.



Rhaglen Effeithlonrwydd y Gyllideb

Roeddem yn bwriadu parhau i hybu annibyniaeth a gwella canlyniadau pobl gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn cyflawni ein harbedion effeithlonrwydd trwy barhau i ehangu a chyflawni'r prosiectau canlynol:

- Model Rhyddhau Amser i Ofalu.
- Hybu annibyniaeth trwy'r Prosiect Dilyniant.
- Cymhwyso canllawiau Gofal Iechyd Parhaus i benderfyniadau ynghylch ariannu pecynnau yn y gwasanaethau oedolion a phlant
- Capasiti ychwanegol i wella gweithgarwch casglu dyledion.
- Cydgynhyrchu modelau newydd o wasanaethau dydd.
- Lleihau lleoliadau cost uchel y tu allan i'r sir a galluogi pobl i aros o fewn neu'n agos at eu cymuned trwy ddatblygu cyfleuster anghenion cymhleth rhanbarthol, cyfleuster asesu mamau a babanod a choleg preswyl.

Taliadau Uniongyrchol

Roeddem yn bwriadu cynyddu nifer y rhai sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol a datblygu menter gydweithredol ar gyfer taliadau uniongyrchol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cymryd rheolaeth ar eu penderfyniadau hwy eu hunain ynglŷn â darparu gofal.

Gwasanaeth Cymorth Ariannol a Chymorth i Fusnesau

Roeddem yn bwriadu ailstrwythuro gwasanaethau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o asesiadau ariannol gofal preswyl a datblygu gwasanaeth hyblyg ac ymatebol sy'n gallu diwallu anghenion prosesau busnes gofal cymdeithasol.

Roeddem hefyd yn bwriadu creu tîm penodai a dirprwyaeth i gefnogi pobl a oedd heb y galluedd i reoli eu materion ariannol eu hunain ac yn methu â chael cymorth gan eu teulu neu gynrychiolydd allweddol.

4.1.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

4.1.2.1 Ein Model Ataliol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

Mae datblygu cymunedau dyfeisgar yn hanfodol i'n strategaeth ataliol. Ceir amrywiaeth gyfoethog o wasanaethau cymorth cymunedol a gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn Sir Benfro.

Mae ein hasedau'n cynnwys:

- 77 o Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned;
- Cymdeithasau Cymunedol, Fforymau Cymunedol, Grwpiau Trefi Trawsnewid;
- Mae dros 80 o gynlluniau gweithredu cymunedol wedi cael eu datblygu;




- Rhwydwaith o adeiladau cymunedol yn cynnig mynediad lleol at ystod eang o wasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau;
- Poblogaeth sy'n heneiddio sy'n golygu bod pobl ag amser, egni a brwdfrydedd i chwarae rhan a gwirfoddoli mewn gwasanaethau a arweinir gan y gymuned;
- Ymarferwyr ymgysylltu â dinasyddion a datblygu cymunedol profiadol;
- Dros 1000 o grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn weithredol yn y Sir;
- Degau o filoedd o wirfoddolwyr, pobl sy'n weithgar yn eu cymunedau a gofawyr di-dâl.

Cysylltwyr Cymunedol

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus dros 2 flynedd a werthuswyd yn annibynnol, mae'r dull Cysylltwyr Cymunedol yn parhau. Mae'r tîm, a oedd yn cael arian cyfatebol yn wreiddiol trwy raglen LEADER, bellach yn cael ei ariannu gan Gyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda trwy gyllid craidd ac amryw ffrydiau cyllid grant. Cyflogir y tîm gan PAVS ac mae eu swyddogaeth fel a ganlyn:

- Cysylltu pobl â'r gwasanaethau sydd ar gael yn Sir Benfro ac o fewn eu pentrefi a'u trefi eu hunain
- Adnabod hyrwyddwyr cymunedol a gwirfoddolwyr posibl a'u cynorthwyo i sianelu eu sgiliau a'u brwdfrydedd i mewn i weithgarwch wedi'i drefnu
- Adnabod bylchau mewn gwasanaethau a helpu i gysylltu pobl i dyfu syniadau newydd yn weithgareddau a gwasanaethau
- Datblygu a diweddarau adnoddau gwybodaeth ar gronfeydd data DEWIS ac infoengine ynghylch cymorth sydd ar gael yn lleol i bobl a'u teuluoedd.



Cafodd Mandy a'i mam eu cyfeirio at y gwasanaeth **Cysylltwyr Cymunedol** gan weithiwr cymdeithasol.

Dyma eu stori nhw.

Catalyddion Cymunedol

Mae 'Meithrin Capasiti Sir Benfro i Ofalu' yn defnyddio'r fethodoleg Catalyddion Cymunedol i gefnogi datblygiad rhwydwaith o ficro-ddarparwyr a mentrau cymdeithasol sy'n darparu ystod o wasanaethau gofal, cymorth a llesiant lleol hyblyg, sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sydd o ansawdd da a'r rheiny'n rhoi dewis a rheolaeth go iawn i bobl dros eu gofal.



Mae'r prosiect 2 flynedd yn rhoi cymorth i sefydlu micro-fentrau neu fentrau cymdeithasol lleol i gynnig ystod o wasanaethau gofal, cymorth a llesiant sy'n cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol am ym hwy yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda micro-fentrau a mentrau cymdeithasol embryonig neu sefydledig, sy'n dymuno gwella'u harferion llywodraethu a busnes a/neu ddatblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion dynodedig. Mae'r prosiect yn helpu comisiynwyr gwasanaethau ac ymarferwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddo newid (diwylliant, systemau a llwybrau) ac yna bydd yn eu helpu i roi'r newidiadau hynny ar waith i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau gofal a chymorth yn Sir Benfro.

Y Grant Arloesi Cymunedau Gofalgar

Nod y Cynllun Grantiau Arloesi Cymunedau Gofalgar a weinyddir gan PAVS ar ran Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw:

- Datblygu prosiectau arloesol a arweinir yn lleol sy'n seiliedig ar yr angen lleol,
- Gwella'r modd y cyd-gysylltir gofal rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol,
- Canolbwyntio ar ofal ataliol ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty neu oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty
- Gwella cydnetheredd cymunedau lleol a'u gallu i gynorthwyo pobl hŷn fregus i gael mynediad at eu rhwydwaith arferol o berthnasoedd cymunedol a theuluol a'i fwynhau.

Mae'r cynllun hwn yn cynnig grantiau bychain hyd at £5,000 i grwpiau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, a Chynghorau Tref a Chymuned. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf dyfarnwyd £180,584.45, a hynny wedi ariannu 57 o brosiectau unigryw ac arloesol.

ASTUDIAETH ACHOS

Prosiect ymchwil a datblygu cydweithredol dan arweiniad Span Arts oedd Memortal/Cofio. Rhoddwyd nifer o brosiectau peilot ar waith i brofi sut y gellid defnyddio technoleg ddigidol yn greadigol i gynyddu cysylltedd a lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd. Roedd Memortal yn golygu gweithio gydag amrywiaeth o bobl a oedd naill ai'n marw, yn dymuno paratoi ar gyfer eu marwolaeth, a oedd wedi'u hynysu, yn wynebu risg o farw ar eu pennau eu hunain a pherthnasau i bobl a oedd wedi marw. Nod y prosiect oedd dylunio cymhwysiad digidol i helpu pobl i greu eu cofebau eu hunain, yn dathlu eu bywyd neu fywyd anwylyd. Mae Span Arts yn ceisio arian ar gyfer ail gam i weithio gyda chyfranogwyr i fireinio'r dyluniad.

Cliciwch ar y ddelwedd i weld y fideo



sy'n rhan o Span Digidol. Yn edrych ar sut



ASTUDIAETH ACHOS

Prosiect arall a ariennir trwy'r rhaglen hon yw'r Côr o Bell. O'r gaeaf tan y gwanwyn yn 2018, bu Span Arts yn gweithio gyda grŵp o bobl wedi'u hynysu a unwyd gan eu cariad at ganu. Y Côr o Bell oedd y rhain. Fe wnaeth yr hwylusydd canu a'r cyfansoddwr caneuon, Molara, ymweld â phob un o'r grŵp sawl gwaith yn eu cartrefi eu hunain neu eu cartrefi gofal, i ganu hen ganeuon



yr oeddent yn eu cofio a dysgu rhai newydd. Cyfrannodd nifer o'r cyfranogwyr eiriau am eu profiadau bywyd, a ddaeth yn rhan o'r gân a gyfansoddwyd gan Molara: "Song About My Life".

Ffilm wedi'i hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Cliciwch ar y ddelwedd i weld y fideo

4.1.2.2 Ein Model Ataliol ar gyfer Gwasanaethau Plant

Mae gan Sir Benfro ystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd, y mae rhai ohonynt yn cael eu darparu gan asiantaethau statudol ac eraill gan y Trydydd Sector. Caiff nifer sylweddol o'r rhain eu hariannu trwy fentrau Llywodraeth Cymru dan ymbarél y Grant Plant a Chymunedau.

Un o elfennau allweddol y Strategaeth a'n hadolygiadau comisiynu yn Sir Benfro fydd asesu a gwerthuso'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau atal pellach. Bydd hyn yn cynorthwyo ac yn galluogi cyfarwyddiaethau a gwasanaethau i wella canlyniadau a lleddfu'r galw yn y dyfodol.

Rydym yn cael oddeutu £4.5M o gyllid trwy'r Grant Plant a Chymunedau a defnyddir yr arian yma i Gomisiynu amrywiaeth o fentrau trwy'r rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r grant yma'n fwy hyblyg nag a fu yn y gorffennol ac fel enghraifft rydym yn awr yn gallu ariannu costau teithio i bobl o ardaloedd gwledig sydd â chlodiant cyfyngedig i fynychu gwaith grŵp.

Y saith rhaglen yn y Grant Plant a Chymunedau yw:

- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Cronfa Etifeddiaeth
- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi
- Cymunedau dros Waith a Mwy
- Gofal Plant a Chwarae



Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi rhieni a phlant yn eu blynyddoedd cynnar. Caiff y rhaglen Dechrau'n Deg ei thargedu at blant 0 – 3 blwydd 11 mis oed. Gall nifer o ardaloedd yn Sir Benfro gael mynediad at y rhaglen, gan gynnwys rhai codau post yn yr ardaloedd canlynol:

- Penfro
- Doc Penfro
- Aberdaugleddau
- Hwlfordd
- Neyland

Bydd cyllid hyblyg o fewn y Grant yn darparu cyfleoedd i estyn Gwasanaethau Dechrau'n Deg i gynyddu cyrhaeddiad y prosiect ar draws y Sir ar gyfer yr holl blant 0-4 oed y mae angen cymorth cynnar arnynt.

Mae 4 elfen i'r rhaglen:

- Iechyd
- Gofal plant
- Datblygiad Iaith Cynnar
- Rhianta

SNAP

Y Cylch Chwarae Asesu Anghenion Arbennig yw hwn, sy'n darparu cylchoedd chwarae ar gyfer plant ag anghenion arbennig sydd rhwng 18 mis a 5 mlwydd oed. Ffocws y ddarpariaeth yw integreiddio'r plentyn i mewn i gylch chwarae addas neu leoliadau addysgol.

Gwasanaeth Iechyd a Llesiant Emosiynol

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth cymorth cynnar i wella iechyd a llesiant emosiynol plant agored i niwed.

Gweithredu dros Blant (Prosiect Hawthorn)

Gwasanaeth cymorth i deuluoedd wedi'i dargedu ar gyfer teuluoedd sydd â phlentyn ag anabledd. Gellir cynnig cymorth unigol ynghyd â gwaith grŵp.

Tîm o amgylch y teulu (TAF)

Mae'r dull Tîm o Amgylch y Teulu'n dwyn ynghyd rwydwaith o ymarferwyr sy'n gweithio gyda' gilydd i gytuno ar gynllun a rhoi cymorth i ddiwallu anghenion asesedig plentyn neu berson ifanc. Maent yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r teulu neu'r person ifanc.



Caiff y Tîm o Amgylch y Teulu ei gydgyssylltu gan y gweithiwr Tîm o Amgylch y Teulu sy'n cydlynu'r broses o gyflawni ac adolygu'r cynllun/ymyriad. Cyfranogiad y plentyn, y teulu a'r person ifanc yn eu cynllun sy'n tanategu'r model hwn ac maent yn ganolog i bob ystyriaeth, gan gynnwys penderfynu ar lefel yr ymwneud y maen nhw'n teimlo sy'n briodol.

Cefnogir tîm y gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu gan Gysylltwr Cymunedol hefyd. Mae'r gweithiwr hwn yn rhoi cymorth i fapio adnoddau a gwasanaethau ac yn ychwanegu gwerth at y Gymuned trwy ddarparu cymorth cyfeirio effeithiol trwy Dewis Cymru ac infoengine.

Dros wyliau hanner tymor mis Mai fe drefnodd tîm ein gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) brosiect PUMP dros ddau ddiwrnod gyda grŵp o blant. Fe helpodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) i hwyluso'r gweithgaredd ar Ddiwrnod 1.

Er gwaethaf y glaw di-baid roedd pawb yn cael hwyl ac yn ymgolli yn y gweithgareddau. Ar Ddiwrnod 1 fe aethant o'r traeth a'r pyllau glan môr i'r coed ac o godi cysgodfan i gael cinio o amgylch tân gwerysll. Ar Ddiwrnod 2 buont yn adeiladu ar y sgiliau a ddysgodd y plant ar y diwrnod cyntaf, a oedd yn cynnwys adeiladu mwy o gysgodfannau, gweithgaredd 'Gollwng Wyau' a choginio bara cawslyd ar y tân.

Dechreuodd y plant fel dieithriaid ac fe ddiweddon nhw fel ffrindiau.

O amgylch y tân gwerysll gofynnwyd i'r plant "Beth oedd eich hoff beth o'r ddau ddiwrnod diwethaf" a rhoi sgôr allan o 10 i ddynodi faint o hwyl a gawsant.

"Popeth. Pyllau glan môr"	10/10
"Popeth, Gollwng wyau"	10/10
"Popeth"	10/10
"Wyneb Caleb wrth fwyta gwymon!"	10/10
"Gollwng wyau"	10/10
"Tân, popgorn, malws melys, bara"	10/10
"Gwneud cysgodfan, coginio'r bara cawslyd"	10/10
"Gwneud ffrindiau newydd"	10/10
"Bwbachod / pypedau coetir"	10/10

Darpariaeth Ieuenctid

Mae Ieuenctid Sir Benfro'n darparu cwricwlwm amgen ac yn cynnig cymorth ychwanegol i ddysgwyr agored i niwed. Mae gan y gwasanaeth Weithiwr Ieuenctid llawn-amser ym mhob ysgol uwchradd, ac mae gan yr ysgol uwchradd fwyaf (Ysgol Uwchradd Hwlfordd) ddwy swydd y mae'n gwneud cyfraniad ariannol tuag atynt. Mae gan Ganolfan Ddysgu Sir Benfro ddau Weithiwr Ieuenctid llawn-amser ac mae gan Goleg Sir Benfro un Gweithiwr Ieuenctid llawn-amser a ranariennir gan y coleg.



Bydd y Grant Cymorth Ieuenctid hefyd yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant emosiynol/meddyliol a gwaith ataliol ar ddigartrefedd ieuenctid a bydd yn cyflawni rhaglen Achieve/darpariaeth amgen Ymddiriedolaeth y Tywysog ar gyfer disgyblion agored i niwed.

Mae'r Grant wedi cefnogi mentrau newydd megis cyflwyno Rheolaeth Fanylach ar Achosion (ECM). Mae hyn yn golygu cydgynhyrchu dull a arweinir gan seicoleg ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad aildroseddu mynych ymhlith carfan gymharol fach ond anodd i'w chyrraedd o bobl ifanc. Yn ymarferol, bydd seicolegydd o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn gweithio gyda rheolwyr achosion y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid i broffilio a llunio'r ymyriadau a fyddai wedi'u teilwra a'u dilyniannu fel eu bod yn diwallu anghenion unigolion yn y ffordd orau. Y Model Adfer ar ôl Trawma yw'r ddamcaniaeth danategol ond ceir cysylltiad cryf â mynychder Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae'r Grant hefyd wedi galluogi Gweithwyr Ieuenctid i gefnogi pobl ifanc dros 16 a'u teuluoedd i'w helpu i gael mynediad at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas.

Defnyddir yr elfen sy'n weddill o incwm y Grant ar gyfer y rhaglen Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol (ymhlith Pobl Ifanc) neu HYC.

Roedd cyllid HYC wedi'i neilltuo ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ac arferai gael ei alw'n Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid. Mae'r cyllid yn talu am dair elfen allweddol a gyflawnir gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid:

- Swyddog Cyswllt Dioddefwyr llawn-amser i gefnogi dioddefwyr troseddau ieuenctid, eirioli ar eu rhan pan fo'n briodol a hwyluso ymyriadau cyfiawnder adferol.
- Gweithrediad y broses Biwro (Gwaredu'r Tu Allan i'r Llys) lle caiff pedwar o bob pum person ifanc sy'n cyfaddef iddynt gyflawni trosedd eu dargyfeirio o broses y Llys tuag at ganlyniad cyfiawnder adferol.
- Ymgysylltu ag Ieuenctid yw'r drydedd elfen sy'n cynnwys rhaglen dreigl o brosiectau atal troseddu trwy gydol y flwyddyn yn ogystal ag ymyriadau un-i-un ac ymyriadau pwrpasol ar gyfer grwpiau bychain. Ariennir y gweithgarwch prosiect hwn gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd.

Mae'r prosiectau HYC ill tri'n cael eu cyflawni ar sail ranbarthol ledled Dyfed-Powys ar hyn o bryd sy'n cynnwys Heddlu Dyfed Powys fel rhanddeiliad allweddol a phartner.

Hefyd, mae gwasanaethau ieuenctid ehangach wedi cael cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i ddarparu gweithgareddau i ddifyrru mewn cymunedau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Cymunedau dros Waith+

Mae'r rhaglen Cymunedau dros Waith+ (CfW+), ochr yn ochr â Cymunedau dros Waith (CfW) yn rhan o strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb ac yn un o'r elfennau allweddol o Gynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i bwriadu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a galluogi pobl i gyflawni eu huchelgeisiau a gwella eu llesiant hwy a llesiant eu teuluoedd trwy gyflogaeth sicr.

Mae CfW+ yn alinio â Nodau Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru trwy gefnogi anghenion y teuluoedd mwyaf agored i niwed a dileu anfantais trwy helpu pobl tuag at ac i mewn i waith.

Cronfa Dewi Sant

Diben y gronfa yw cynorthwyo pobl ifanc sydd neu a fu yng ngofal yr awdurdod lleol i gael mynediad at gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Fel Rhieni Corfforaethol mae'r Cyngor yn dal i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal trwy ariannu pasys teithio i alluogi pobl ifanc i fynychu'r coleg, cyflogaeth a hyfforddiant, darparu offer a chyllid i brynu dillad i fynychu cyfweiliadau, cefnogi cyfleoedd cyfoethogi a hamdden i wella llesiant a darparu mynediad at gronfa galedi i roi cymorth i reoli rhent neu gymorth cyffredinol gyda chyllid.

Y Gronfa Etifeddiaeth

Nod y Gronfa Etifeddiaeth yw cynnal yr agweddau mwyaf effeithiol ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth, yn benodol trwy gefnogi unigolion sy'n byw mewn tloedi neu sy'n wynebu risg o dlodi. Defnyddir y Gronfa Etifeddiaeth fel rhan o raglenni ymyrryd yn gynnwys ac atal Cyngor Sir Penfro, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl, Cymunedau dros Waith a datblygu cymunedau cydnerth.

Gofal Plant a Chwarae

Mae Tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae'n cefnogi'r Sector Gofal Plant Preifat, Gwirfoddol ac Annibynnol i sicrhau:

- Clybiau ar ôl ysgol ac yn y gwyliau cofrestredig ac anghofrestredig a nifer o leoedd gofal plant a gaiff eu cynnal yn ôl math
- Datblygiad lleoedd gofal plant newydd a gaiff eu creu a'u hariannu gan y grant
- Awdit Cymwysterau o'r holl staff – mynychu digwyddiadau a hyfforddiant
- Grantiau Cynaliadwyedd i ddarparwyr yn cael eu dyfarnu a chynaliadwyedd y safle



4.1.2.3 Rhaglen Effeithlonrwydd y Gyllideb

Trwy gydol 2019/20 fe wnaethom barhau i gyflawni yn erbyn ein rhaglen effeithlonrwydd y gyllideb. Gofynnwyd i ni weithredu â chyllideb wastad ac felly roedd yn ofynnol i ni adnabod gwerth 6 miliwn o bunnoedd o ostyngiadau mewn costau. Caiff rhai o'r ffyrdd yr aethom ati i wneud hyn eu crynhoi isod.

Rhyddhau Amser i Ofalu

Mae ein prosiect rhyddhau amser i ofalu wedi'i fwriadu i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o offer yr oes fodern, sydd o gymorth i symud a thrin pobl sy'n cael gofal gan olygu y gallant gael eu cefnogi gan 1 gofalwr yn hytrach na 2. Nid yn unig y mae hyn yn lleihau cost y pecyn gofal, mae hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r cwsmer gyda'i ofal. Yn ystod 2019/20 fe wnaethom barhau i estyn y dull ac fe wnaethom gyflawni gostyngiad o £66,000 yng nghostau darparu gofal.

Cliciwch ar y delwedd i wyllo stori Rex:



Cael Mynediad at Gyllid Gofal Iechyd Parhaus.

Rydym ni'n credu y gallai rhai o'n cwsmeriaid fod yn gymwys i gael cyllid Gofal Iechyd Parhaus (GIP). Os yw asesiad yn canfod bod angen GIP arnynt maent yn cael gofal am ddim yn y man darparu ac mae eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu trwy gyllideb y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi recriwtio dau weithiwr cymdeithasol ychwanegol i adolygu pecynnau gofal ar gyfer plant ac oedolion. Yn ystod 2019/20 fe wnaethom adnabod gwerth £389,000 o gostau gofal a oedd yn gymwys ar gyfer cyllid gofal iechyd parhaus.



Adfer Dyledion

Yn 2018/19 fe wnaethom adolygu faint o arian oedd yn ddyledus i ni o ganlyniad i beidio â thalu ffioedd gofal. Roedd y ffigwr yn uwch na £3 miliwn. Fe benderfynom ni fuddsoddi mewn swyddog adfer dyledion i adolygu ein gweithdrefnau presennol a rhoi rhaglen ar waith i adfer dyledion. Yn ystod 2018/19 fe wnaethom adfer £745,000 mewn dyledion heb eu talu. Ein targed ar gyfer 2019/20 oedd £262,000 ac fe wnaethom adfer £296,000 mewn gwirionedd.

Taliadau Uniongyrchol

Rydym ni'n credu y gall defnyddwyr gwasanaethau gael mwy o hyblygrwydd a rheolaeth ar eu gofal os ydynt yn dewis defnyddio Taliad Uniongyrchol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi'r cyfle i bobl gyflogi eu staff eu hunain a hefyd i brynu ystod eang o wasanaethau a chymorth.

Isod ceir rhai sylwadau gan ddefnyddwyr taliadau uniongyrchol:

'Mae pethau'n mynd yn dda, rwy'n teimlo fel pe bai gennym fywyd newydd o ganlyniad i Taliadau Uniongyrchol'.

'Mae'r gallu i ddewis ein Cynorthwydd Personol ein hunain yn helpu i atal fy mab rhag cynhyrfu trwy fod â phobl y mae'n eu hadnabod. Mae wedi agor byd cwbl newydd i ni'.

Fodd bynnag, ceir canfyddiad ymhlith rhai defnyddwyr gwasanaethau bod Taliadau Uniongyrchol yn golygu peth wmbredd o waith papur cymhleth a cheir heriau hefyd o ran recriwtio Cynorthwydd Personol.

Mae Diverse Cymru yn cynnig gwasanaeth cyfrif a reolir lle maen nhw'n dal arian y Taliad Uniongyrchol ac yn gwneud yr holl drafodion ariannol ar ran y person. Mae hyn am ddim yn y man darparu i deiliaid Taliadau Uniongyrchol. Yn ystod 2020/21 byddwn yn adolygu ein contract gyda Diverse Cymru er mwyn cyflawni gwelliannau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae'r holl Taliadau Uniongyrchol yn Sir Benfro'n cael eu gwario gan unigolion ar eu cymorth hwy eu hunain. Nid oes diwylliant o gyfuno cyllidebau nac o bobl yn cael eu cefnogi ar yr un pryd. Mae datblygu mentrau cydweithredol ar gyfer taliadau uniongyrchol yn flaenoriaeth allweddol felly fe ddefnyddiom ni gyllid i gyflogi gweithiwr sy'n rhoi cymorth i sefydlu mentrau cydweithredol taliadau uniongyrchol a micro-fentrau. Rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid, cymunedau, busnesau, mentrau cydweithredol ac unigolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau.

Mae ein prosiect catalyddion ar gyfer gofal yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth gyda PAVS, PLANED a'r Catalyddion Cymunedol. Mae'r prosiect yn rhoi cymorth pwrpasol i ddatblygu micro-fentrau a mentrau cymdeithasol sy'n cynnig opsiynau gofal a chymorth personol. Y diben yw



arallgyfeirio'r farchnad gyfredol i ddarparu arlwyon amgen creadigol a fydd yn cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael i'r holl bobl gan gynnwys y rhai sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol ac yn lleihau nifer y bobl sy'n disgwyl am ofal a chymorth.

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu cyfres o gynlluniau peilot sy'n cysylltu ein Cyfleoedd Dydd a Gofal Cartref. Y nod yw datblygu Cronfa Gwasanaeth Unigol, a fydd yn ategu newidiadau i Daliadau Uniongyrchol. Rydym yn amcanu at gynhyrchu system sy'n seiliedig ar gryfderau gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ac y mae ar bobl eisiau ei wneud, neu y gallent ei wneud â'r cymorth cywir a dod o hyd i ffyrdd o wneud iddo ddigwydd. Bydd y gronfa gwasanaeth yn darparu lefelau uwch o hyblygrwydd a dewis ond gyda lefelau is o gyfrifoldeb i gwsmeriaid na Taliadau Uniongyrchol.

Yn ystod 2019/20 fe gynhaliom ni sesiynau briffio ar gyfer ein holl Weithwyr Cymdeithasol i sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i hyrwyddo'r cynllun mor eang â phosibl. Rydym yn falch o weld bod hyn wedi arwain at gynydd yn y nifer sy'n ei ddefnyddio.

4.1.3 Ein Perfformiad

4.1.3.1 Gwasanaethau Oedolion

Data Ansoddol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Cyflawn wyd 2019/20
Pobl sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant.	92%	95%	96%	94%

Dengys yr ymatebion i'n harolwg ar gyfer 2019/20 fod 94% o ddefnyddwyr ein gwasanaethau oedolion yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant.

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.	70%	82%	80%	80%	84%



4.1.3.2 Gwasanaethau Plant

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn graddfeydd amser statudol	Amh.	99%	100%	100%	92%

Bu dirywiad bach yn ein perfformiad am y flwyddyn hon, sy'n gysylltiedig â rhai anawsterau o ran gallu recriwtio i swyddi gwaith cymdeithasol rheng flaen allweddol.

4.1.4 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwaith ataliol ar gyfer oedolion a phlant. Byddwn yn ehangu ar y gwersi a ddysgwyd o sefydlu'r Hwb Cymunedol i gefnogi pobl yn ystod pandemig COVID.
- Byddwn yn parhau i gyflawni yn erbyn rhaglen effeithlonrwydd y gyllideb trwy fod mor effeithlon â phosibl ac archwilio ffyrdd newydd o weithio
- Byddwn yn adolygu'r contract Taliadau Uniongyrchol gyda golwg ar roi gwasanaeth gwell ar waith a chynyddu'r gwaith hyrwyddo a'r nifer sy'n ei ddefnyddio.

Safon Ansawdd 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl a llesiant emosiynol pobl.

4.2.1 Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Yn ystod 2019/20 roeddem yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid ledled y rhanbarth i ddatblygu cysyniad ar gyfer 'canolfannau rhagoriaeth' ailalluogi newydd a fyddai'n rhoi cymorth camu-i-fyny a chamu-i-lawr o'r radd flaenaf fel modd i atal derbyniadau i'r ysbyty a helpu pobl i adfer annibyniaeth ar ôl cael eu rhyddhau.
- Roedd arnom eisiau rhoi model ailalluogi newydd ar waith a hwnnw'n cael ei weithredu gan y Cyngor yn uniongyrchol i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Roeddem yn bwriadu agor cyfleusterau gofal canolradd a sefydlu tîm gofal canolradd i gefnogi llesiant defnyddwyr gwasanaethau trwy eu galluogi i gamu allan o'r ysbyty i amgylchedd gofal a chymorth gyda ffocws ar adsefydlu.
- Roeddem yn bwriadu parhau i adolygu'r broses rhyddhau o'r ysbyty gyda golwg ar newid y ffordd y caiff asesiadau ar gyfer gofal eu cwblhau yn yr ysbyty.
- Roeddem yn bwriadu datblygu ac ehangu ein gwasanaeth Gofal Cartref a reolir yn uniongyrchol.



4.2.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

Ailalluogi

Trosglwyddwyd y gwasanaeth ailalluogi o The Human Support Group Limited (HSG) i'r Cyngor ar 1 Tachwedd 2019. Trosglwyddwyd y staff i Gyngor Sir Penfro dan reoliadau TUPE. Mae Rheolwr y Tîm Ailalluogi, Arweinwyr Tîm a chynrychiolwyr staff wedi bod yn cydweithio i greu trefniadau rota newydd a chynllunio'r gwasanaeth yn effeithlon.

Gwnaed newidiadau i'r strwythur staffio i alluogi gwasanaeth ailalluogi mwy ymatebol ac effeithiol. Mae Therapyddion Galwedigaethol ychwanegol yn gallu teilwra pecynnau o gymorth i ddiwallu canlyniadau unigolyn yn y ffordd orau.

Caiff y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth eu dangos yn y tabl isod

Strwythur Gwreiddiol y Tîm	Strwythur Diwygiedig y Tîm
	1 x Rheolwr
1 x Arweinydd Tîm	5 x Arweinydd Tîm
0.5 x Therapydd Galwedigaethol	3.3 x Therapydd Galwedigaethol
	1 x Cydlynnydd Gofal
27 x Gweithiwr Cymorth	35 x Gweithiwr Cymorth
1 x Hyfforddwr	
1 x Gweinyddwr	1 x Gweinyddwr

Rydym wedi gallu canolbwyntio ar gynyddu nifer y gweithwyr cymorth a chapasiti rheolwyr i sicrhau lefelau uchel o berfformiad ar draws y gwasanaeth. Mae'r rhestr aros ar gyfer ailalluogi wedi gostwng yn gyson o 81 o gwsmeriaid cyn ailstrwythuro i 15 ym mis Gorffennaf 2020.

Gofal Canolradd

Mae gofal canolradd yn golygu ystod o wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector sy'n cydweithio i ddiwallu anghenion pobl ac i osgoi derbyn yn ddiangen i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi trosglwyddiad amserol yn ôl adref o'r ysbyty ac i gynorthwyo'r person gyda'i raglen adsefydlu. Nod y gwasanaeth yw cynorthwyo pobl i fod mor annibynnol â phosibl, er mwyn iddynt allu parhau i fyw a heneiddio'n dda yn Sir Benfro. Er mwyn ymateb i argyfwng COVID daeth y tîm yn llwyr weithredol ym mis Mawrth 2020.

Y broses ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty

Rydym wedi parhau i gefnogi ysbytai aciwt a chymunedol hyd y gellir. Rydym wedi lleoli peth capasiti gwaith cymdeithasol ychwanegol yn y tîm rhyddhau ar y cyd dros dro i wella'r broses o



ryddhau o'r ysbyty. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid ym maes lechyd mewn perthynas â llwybrau rhyddhau i adfer yna asesu.

Gwasanaeth gofal cartref a reolir gan y cyngor

Fe wnaeth y tîm a reolir gan y cyngor estyn ei gyfran o'r farchnad o 5% i 9% yn ystod 2019/20. Yn 2018 fe drosglwyddodd y tîm i Gyngor Sir Penfro o Allied Health gyda 27 o gwsmeriaid yn cael 2,004 o oriau o ofal y mis. Erbyn haf 2020 roeddem yn cefnogi 72 o gwsmeriaid a oedd yn cael 4,491 o oriau o ofal y mis mewn dros 7,844 o ymweliadau. Byddwn yn datblygu ac yn tyfu'r gwasanaeth trwy gydol 2020/21.

4.2.3 Ein perfformiad

Gwasanaethau Oedolion

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau Gofal Cymdeithasol am bob 1,000 o bobl 75+ oed	1.7	3.5	4.37	4	6.21
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd â phecyn llai o ofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach.	90%	79%	77%	78%	87.46%
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac sydd heb unrhyw becyn o ofal chwe mis yn ddiweddarach	78%	67%	59%	65%	65.51%
Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion 65+ oed yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl	1,222	881	855 diwrnod	Amh	784 diwrnod
Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl	78	82	81 mlynedd	Amh	86 mlynedd

Mae cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn cynyddu'n gyson a hynny oherwydd anawsterau gyda'r cyflenwad o ofal cartref a chymhlethdod cynyddol y galw. Rydym wedi creu gwelyau gofal canolradd ychwanegol yn ein cyfleusterau wedi'u hadnewyddu ar safleoedd cartrefi preswyl Havenhurst a Hillside. Rydym yn disgwyl y bydd y tîm gofal canolradd yn cael effaith uniongyrchol ar ein perfformiad o ran oedi wrth drosglwyddo gofal yn ystod 2020/21.



Mae gennym nifer o fentrau newid i wella ein perfformiad o ran ailalluogi, a drafodwyd yn adran 4.2.2. Rydym yn hyderus y byddwn yn gweld gwelliannau sylweddol yn y maes hwn yn ystod 2020/21.

Rydym yn nodi bod oedran cyfartalog y bobl sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl yn codi ac yn ystyried felly ein bod yn cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain am yn hwy.

Gwasanaethau Plant

Data Meintiol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% y plant a welwyd gan ddeintydd cofrestredig o fewn tri mis i ddod yn blant sy'n derbyn gofal	53%	47.2%	74.35%	75%	65%
% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu	99%	99%	99%	100%	83%

4.2.4 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Caiff ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 eu rhestru isod:

- Byddwn yn parhau i weithio ar gynlluniau i wella ein gwasanaeth ailalluogi ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer canolfan ragoriaeth ailalluogi.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a darparwyr gofal preswyl a chartref mewn perthynas â gwneud gwelliannau i'r Prosesau Rhyddhau o'r Ysbyty.
- Byddwn yn adolygu'r effaith y mae'r Tîm Gofal Canolradd wedi'i chael ar ryddhau a derbyn i'r ysbyty.
- Byddwn yn parhau i dyfu a datblygu'r gwasanaeth gofal cartref a weithredir gan y Cyngor er mwyn lleihau amseroedd aros i bobl. Fel rhan o hyn byddwn yn adolygu ein gweithgareddau recriwtio ac yn cychwyn datblygiad i sicrhau ein bod yn gallu cyrraedd sectorau eang o'r gymuned.
- Byddwn yn agor cyfleuster gofal canolradd ac ailalluogi newydd gydag 8 gwely ychwanegol yn ystod 2020/21



Safon Ansawdd 3: Amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag niwed.

Bydd diogelu wastad yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor cyfan. Y llynedd fe gytunodd y cyngor ar Bolisi Diogelu Corfforaethol. Ceir cynllun gweithredu manwl sydd ynghlwm wrth y polisi hwn a thrwy gydol 2018/19 fe weithiom ni gyda phartneriaid i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

4.3.1 Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Diogelu Rhanbarthol

Fel rhan o'n gwaith gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol rydym wedi adnabod y 4 blaenoriaeth allweddol ganlynol ar gyfer y flwyddyn nesaf:

Ymgysylltu Gwell:	I ddangos bod llais plant ac oedolion yr effeithir arnynt gan waith y Bwrdd yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn golego ymarfer ac yn llunio gwasanaethau.
Dysgu Systematig:	Mynd ati'n barhaus i ddatblygu a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio fel bod canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn gwella.
Mwy o Wybodaeth a Sgiliau:	Bod yn sicr ein bod yn gwybod pwy yw'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu'n effeithiol.
Arwain, Dylanwadu a Herio'n Gryf:	Darparu arweinyddiaeth strategol gadarn a her effeithiol ar draws y bartneriaeth a dylanwadu ar yr agenda genedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roeddem hefyd yn bwriadu datblygu Tîm Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a pharhau i hyrwyddo a datblygu gwasanaethau eiriolaeth.

4.3.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

4.3.2.1 Diogelu Rhanbarthol

Gan weithio gyda'r partneriaid o'r bwrdd diogelu rhanbarthol rydym wedi cyfrannu at gyflawni eu canlyniadau allweddol ar gyfer 2019/20 fel a restrir isod.



Ymgysylltu Gwell

- Mae asiantaethau a phartneriaid ar y bwrdd wedi rhoi prosesau ar waith ar lefelau lleol i gofnodi llais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a grwpiau agored i niwed
- Mae llais plant a phobl ifanc yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i'r Bwrdd a'i waith
- Mae gwefan wedi'i gwella'n cefnogi ymarferwyr gyda gwaith diogelu, ac yn parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau dinasyddion mewn cymunedau a'u hannog i hysbysu ynghylch eu pryderon mewn perthynas â phobl a allai fod yn wynebu risg.

Dysgu Systematig

- Mae gennym gynlluniau eglur i gefnogi ymarfer cadarn ar gyfer recriwtio a chadw staff ac rydym yn deall y meysydd lle mae gennym wendidau ac elfennau bregus
- Mae gennym gynlluniau datblygedig ac eglur i gefnogi Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac mae'r gwaith hwn bellach wedi'i sefydlu'n gadarn yn strwythurau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Mae ymarfer diogelu cryf ac effeithiol mewn gwaith comisiynu rhanbarthol yn esblygu ac mae wedi cael ei gryfhau

Mwy o Wybodaeth a Sgiliau

- Mae niferoedd yr Adolygiadau Ymarfer a Fforymau Amddiffyn Amlasiantaeth sy'n digwydd ledled y rhanbarth wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae dulliau ar gyfer rhannu gwersi gydag ymarferwyr wedi cael eu cryfhau.
- Mae cyhoeddi canllawiau rhanbarthol gwell ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg yn cefnogi dull mwy cyson.
- Mae cymhwyso trothwyon cyson ledled y rhanbarth wedi gwella ansawdd atgyfeiriadau ac adroddiadau a geir.
- Mae ffrydiau gwaith i godi ymwybyddiaeth o ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad wedi cael eu cryfhau ar draws asiantaethau.

Arwain, Dylanwadu a Herio'n Gryf

- Mae llwybrau atgyfeirio a gwasanaethau fforensig i blant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi gwella.
- Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi cael eu lansio'n llwyddiannus ac maent bellach yn cael eu defnyddio gan ymarferwyr amlasiantaeth ledled y rhanbarth, gan gefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau personol.



Mae Cyngor Sir Penfro'n cyfrannu'n uniongyrchol at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol trwy'r Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI). Wedi'u rhestru isod mae'r gweithgareddau a gwblhawyd gan y GGLI yn ystod 2019/20.

- Rydym wedi datblygu fframwaith perfformiad ac mae cyflenwi data wedi'i wreiddio yn agenda ein Grŵp Gweithredol Lleol (GGLI). Mae cymharu data ar draws Awdurdodau Lleol yn ysgogi trafodaethau am arfer gorau a datrys perfformiad.
- Rydym wedi mabwysiadu eitem dadansoddi data â ffocws mwy pendant yn y GGLI, gan archwilio pob dangosydd diogelu allweddol yn fanwl.
- Rydym yn cefnogi'r Diogelwyr Iau yn eu gwaith ac mae aelodau'n adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn y GGLI.
- Mae Sir Benfro wedi cadeirio'r is-grŵp yma, ac wedi cyfrannu at waith y cynllun rhanbarthol.
- Rydym wedi mynychu'r Caffi Sgwrsio yn Neuadd y Sir yn Sir Benfro i ddarparu gwybodaeth ar gyfer staff ynghylch yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth am y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, gan gynnwys hyrwyddo'i wefan newydd a'i gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cynhaliwyd y Gynhadledd Diogelwyr Iau yn yr Archifdy yn Hwlfordd. Daeth disgyblion uwchradd i'r Gynhadledd lle gwnaethant ddilyn y modiwl e-ddysgu diogelu ar Gadw Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn Ddiogel a chwblhau gweithdy ar Linellau Cyffuriau a hwyluswyd gan Fearless.
- Fe gyfranogodd y Diogelwyr Iau mewn nifer o weithgareddau er enghraifft Pitsa a bowlïo lle'r oeddent yn gallu ymgysylltu'n anffurfiol â phenderfynwyr allweddol yn y Cyngor i gryfhau cysylltiadau, cyfathrebu ac ymgysylltu.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Diogelu Rhanbarthol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yng Ngholeg Sir Benfro. Y thema oedd Dathlu Arwyddion Diogelwch ledled Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ac roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys yr Athro Eileen Munro, Bev Edwards ac Andrew Turnell.
- Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar berfformiad y gwasanaethau oedolion a phlant i alluogi craffu cadarn i ddigwydd.
- Mae rhaglen leol o archwiliadau o gydymffurfio ac ymarfer ar waith ac adroddir yn ôl wrth y bwrdd ar berfformiad a themâu allweddol.
- Mae tîm Diogelu Sir Benfro wedi cyfrannu'n sylweddol at redeg Adolygiadau Ymarfer yn y rhanbarth.
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Pecyn Cymorth Adolygu Ymarfer i wella, safoni a helpu i hwyluso adolygiadau ymarfer oedolion a phlant ar gyfer y rhanbarth.
- Mae rhaglen ddatblygu leol wedi cael ei sefydlu a'i hintegreiddio fel rhan o drefniadau adrodd y GGLI.



- Cynhaliwyd nifer o Ddigwyddiadau Dysgu gyda chydweithwyr rhanbarthol yn arsylwi fel arfer gorau.
- Mae Sir Benfro'n cadeirio datblygiad strwythur a phroses Fforwm Amddiffyn Amlasiantaeth rhanbarthol.

4.3.2.2 Datblygu Tîm Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yw'r weithdrefn a ragnodir mewn cyfraith pan fo angen amddifadu preswlydd neu glaf o'i ryddid am nad yw'n meddu ar alluedd i gydsynio â'i ofal a'i driniaeth er mwyn ei gadw'n ddiogel rhag niwed. Deddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n rheoli'r drefn o gymhwyso'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), sy'n amddiffyn yr hawl i ryddid personol ac yn ei gwneud yn ofynnol darparu trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, gan gynnwys eu hawl i fynediad at achos barnwrol prydlon i herio cyfreithlondeb eu cadw.

Mae'r Awdurdod, fel 'corff goruchwyllo' yn gyfrifol am gynnal ac awdurdodi'r asesiadau cymhwysol dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Cafodd tîm y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ei ehangu yn 2019 mewn ymateb i gynnydd mewn atgyfeiriadau. Mae gan y tîm bellach ddau Aseswr Budd Pennaf achrededig, cydlynnydd gweinyddol a Rheolwr Tîm Cynorthwyol. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae asesiadau brys wedi bod yn cynyddu'n gyson.

- Yn ystod 2017/18 fe ymdrinom ni â 28 o asesiadau brys a 106 o asesiadau safonol pellach.
- Yn ystod 2018/19 fe gwblhaom ni 36 o asesiadau brys a 151 o asesiadau safonol.
- Yn 2019/2020 mae'r tîm wedi cynnal ac awdurdodi 156 o asesiadau, 52 o rai brys a 104 o rai safonol.

Mae ôl-groniad o asesiadau o hyd gyda'r tîm yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel a brys. Mae'r tîm wedi datblygu lefel uchel o arbenigedd a gwybodaeth mewn perthynas â chymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) ac mae'n cynnig cymorth ac arweiniad i dimau gwaith cymdeithasol oedolion eraill a darparwyr gofal.

Fe gyflwynodd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) (2019) system y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) i ddisodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r dyddiad arfaethedig ar gyfer rhoi'r system ar waith, sef 1 Hydref 2020, wedi cael ei ohirio bellach tan 1 Ebrill 2022. Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn dwyn newidiadau allweddol i'r trefniadau cyfredol dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid:

- Cwmpas ehangach y trefniadau amddiffyn – lleoliad ac oedran
- Gweithwyr Galluedd Meddyliol Proffesiynol Cymeradwy (AMCP) yn lle Aseswyr Budd Pennaf



- Dim mwy o awdurdodiadau brys
- ‘Corff goruchwyllo’ yn cael ei ddisodli gan ‘Gorff Cyfrifol’
- Gofyniad o ran anghenraid a chymesuredd yn hytrach na budd pennaf
- Adnewyddu ar ôl 1 flwyddyn, 1 flwyddyn wedyn 3 blynedd

Cynllunio ar gyfer rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar Waith

Bydd y Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau drafft a'r Cod Ymarfer ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd hwnnw'n rhedeg am 12 wythnos, gan ganiatáu digon o amser i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu, ymgysylltu'n iawn. Bydd angen i'r Cod a'r rheoliadau wedi'u diweddarau gael eu gosod gerbron y Senedd i ddarparu ar gyfer craffu priodol. Disgwylir i hyn ddigwydd ymhell cyn y dyddiad targed ar gyfer rhoi'r trefniadau ar waith, i ddarparu ar gyfer craffu a'r angen i rai o'r rheoliadau ddod i rym yn gynharach. Y gobaith yw y bydd y Cod/Rheoliadau terfynol yn eu lle erbyn mis Hydref 2021.

Bydd tîm y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn parhau i gynnal ei fusnes craidd, sef asesu atgyfeiriadau sy'n flaenoriaeth, gan hefyd roi cymorth i'r Awdurdod baratoi ar gyfer y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol i roi cymorth i roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith:

- Rhannu arbenigedd
- Cryfhau gwybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn timau rheng flaen
- Addasu offer asesu i ddangos tystiolaeth o anghenraid a chymesuredd
- Adnabod ffynonellau eiriolaeth (Yn rhanbarthol)
- Asesiadau effaith lleol

4.3.2.3 Eiriolaeth

Gwasanaeth Eiriolaeth TGP Cymru a gefnogir gan Gyngor Sir Penfro. Mae'n wasanaeth rhad-ac-am-ddim i blant a phobl ifanc sydd rhwng 0 a 25 oed ac yn:

- blentyn sy'n derbyn gofal,
- plentyn nad yw'n derbyn gofal ond y gall fod arno angen gofal a chymorth;
- plentyn y mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn grym ar ei gyfer
- plentyn a fabwysiadwyd neu a allai gael ei fabwysiadu
- rhywun sy'n Gadael Gofal.



Mae'r gwasanaeth yn cefnogi ein pobl ifanc trwy:

- wrando arnynt a'u safbwynt
- eu hysbysu ynghylch eu hawliau
- eu helpu i leisio'u barn a chael gwrandawriad
- eu helpu i ddatrys pethau gyda gweithwyr/gofalwyr
- rhoi cymorth iddynt a'u helpu i leisio'u barn mewn cyfarfodydd
- eu grymuso i eirioli drostynt hwy eu hunain



Caiff gwasanaethau eu hyrwyddo i bobl ifanc gan eu gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr a gweithwyr cymorth yn ogystal â thros y fewnwyd

Astudiaeth Achos Eiriolaeth ar gyfer Plant

Mae E yn 14 oed. Fe'i hatgyfeiriwyd at ein gwasanaeth eiriolaeth gan ei gofalwr maeth.

Hysbysodd gofalwr maeth E fod ar Emma eisiau newid lleoliad. Eglurodd y gofalwr maeth fod arni eisiau cefnogi E a'i bod wedi ceisio dod o hyd i'r rheswm pam fod ar E eisiau symud, ond bod E wedi dweud nad oedd hi'n gwybod pam. Eglurodd y gofalwr maeth fod y sefyllfa nid yn unig yn effeithio ar E ond yn effeithio ar ei phlant hi ei hun hefyd a'i bod yn meddwl mai'r peth gorau oedd atgyfeirio at eiriolwr annibynnol i geisio barn E.

Siaradodd yr eiriolwr gydag E am ei theimladau ynghylch ei lleoliad. Mynegodd E i ddechrau ei bod yn ei chael yn anodd dweud pam ei bod hi'n teimlo fel hyn. Trwy drafodaethau pellach gyda'r eiriolwr, roedd E yn gallu cydnabod bod rhai o'i theimladau ynghylch ei lleoliad yn deillio o genfigen o berthynas glòs y gofalwr maeth gyda'i phlant biolegol a'r ffaith bod ar E eisiau'r un math o berthynas gyda'i theulu biolegol hi ei hun. Roedd E yn meddwl yn ôl drwy'r amser ac yn cymharu, gan wybod na chafodd hi'r un profiad. Roedd yr eiriolwr yn gallu siarad yn fanwl gydag E am y teimladau hyn. Fe wnaeth dawelu meddwl E bod y teimladau hyn yn naturiol. Fe wnaeth ei helpu hefyd i adnabod yr agweddau cadarnhaol ar ei lleoliad. Dywedodd E wrth yr eiriolwr ei bod hi'n teimlo mai'r peth mwyaf synhwyrol oedd aros yn y lleoliad am nawr ac adolygu'r sefyllfa'n ddiweddarach gyda'i gweithiwr cymdeithasol os oedd angen.



Caiff gwasanaethau eiriolaeth i **oedolion** eu darparu gan Ganolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Mae pobl yn gymwys i gael eiriolaeth os ydynt dros 18 oed a bod un o'r canlynol yn wir:

- bod ganddynt anabledd dysgu
- bod ganddynt anabledd corfforol
- eu bod yn agored i niwed oherwydd oedran, cyflwr iechyd neu angen aseddig (gan gynnwys awtistiaeth, anhwylder ar y sbectrwm awtistig, dementia, materion iechyd meddwl ac wedi cael anaf i'r ymennydd)
- bod ganddynt nam ar y synhwyrâu
- eu bod yn ofalwr

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr oriau o gymorth eiriolaeth a ddarparwyd ar gyfer pobl Sir Benfro yn ystod 2019/20.

Gwasanaeth Eiriolaeth – Oriau o Wasanaeth 2019/20				
	Chw 1	Chw 2	Chw 3	Chw 4
Eiriolaeth Annibynnol	560	582	623	620
Eiriolaeth Dinasyddion	25	22	10	5
Eiriolaeth Cymheiriaid	25	23	20	10
Hunan-eiriolaeth	30	27	15	7

"Dydw i ddim yn siŵr a fyddwn i wedi gallu ymdopi â'r sefyllfa pe na bawn wedi cael cymorth [Eiriolwr]"

Astudiaeth Achos Eiriolaeth ar gyfer Oedolion

Beth oedd y canlyniad a nodwyd ar ddechrau'r achos?

- Roedd y cleient yn dymuno codi cwyn gyda'r bwrdd iechyd ynghylch oedi a methiannau gyda thriniaeth ar gyfer ei iechyd meddwl.

Beth oedd y canlyniad terfynol?

- Trosglwyddwyd y cleient o wasanaeth eiriolaeth arall. Roedd wedi bwriadu ysgrifennu'r gŵyn ei hun, ond fe gymerodd hyn lawer o amser ac roedd yn anodd iddo.
- Fe helpodd DH i grynhoi a chwblhau'r gŵyn, fe'i cyflwynodd i'r bwrdd iechyd ac fe ymdriniodd ag unrhyw ohebiaeth.
- Roedd y cleient yn siomedig gyda'r ymateb ysgrifenedig ar ôl yr ymchwiliad ac roedd yn ystyried mynd at yr Ombwdsmon.
- Rhoddodd DH gymorth mewn apwyntiadau gyda seiciatrydd.



- Fe wnaeth cymorth y cleient gan y tîm iechyd meddwl wella'n sylweddol.
- O ganlyniad, fe benderfynodd y cleient beidio â mynd at yr Ombwdsmon.

A oedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol ynteu negyddol i'ch cleient?

- Roedd y canlyniad terfynol yn gadarnhaol i'r cleient. Fe ailddechreuodd ei therapi ac roedd yn mynd yn dda. Roedd bellach yn teimlo'i fod yn cael cymorth da gan y tîm iechyd meddwl. Roedd y cleient yn teimlo bod hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r cymorth gan y gwasanaeth eiriolaeth.

4.3 Ein perfformiad

Gwasanaethau Oedolion

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn graddfeydd amser statudol	71%	83%	80.5%	80%	87.65%

O ran nifer yr adroddiadau a gafwyd mewn perthynas ag oedolion yr oedd amheuaeth eu bod yn wynebu risg rydym wedi gweld cynnydd sylweddol o 1095 yn 2018/19 i 1611 yn 2019/20. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r atgyfeiriadau hyn yn mynd ymlaen i ymholiad. Yn 2019/20 fe ymdrinom ni mewn gwirionedd â 324 o ymholiadau, sy'n sylweddol fwy na'r 232 yr ymdrinwyd â hwy yn 2018/19. Mae'r tîm diogelu oedolion wedi perfformio'n dda i ymdrin â'r cynnydd yn y galw yn ogystal â gwella perfformiad o ran canran yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn graddfeydd amser statudol.

Gwasanaethau Plant

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr ail-gofrestriadau ar gyfer plant ar gofrestrau amddiffyn plant yr awdurdod lleol	9%	4.4%	4.25%	5%	13%
Nifer cyfartalog y diwrnodau ar gyfer yr holl blant a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn.	160	177	206	250	169.16



Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi codi'n gyson dros y 3 blynedd ddiwethaf: ar 31 Mawrth 2017 roedd 36 o blant, 59 ym mis Mawrth 2018, 68 ym mis Mawrth 2019 ac erbyn mis Mawrth 2020 roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 81.

Mae canran yr ail-gofrestriadau'n uwch na'r disgwyl.

4.3.4. Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Fel rhan o'n gwaith Rhanbarthol gyda'r bwrdd diogelu byddwn yn cefnogi'r mentrau canlynol:

Ymgysylltu Gwell

- Mynd ati ymhellach i ddatblygu gwaith lleol a wnaed mewn perthynas ag ymgysylltu, yn enwedig gydag oedolion sy'n wynebu risg, yn fframwaith a dull rhanbarthol strategol ehangach
- Mynd ati ymhellach i gyfnerthu cysylltiadau presennol â phartneriaethau rhanbarthol eraill ac estyn hyn i gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cwblhau a lansio'r pecyn cymorth ar gyfer clybiau chwaraeon a hamdden digysylltiad

Dysgu Systematig

- Ail-ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â rhannu gwybodaeth i gynulleidfa ehangach, gan dargedu gwasanaethau drws ffrynt a dyletswydd ledled y rhanbarth

Mwy o Wybodaeth

- Datblygu model a dull cyson i fynd ati'n rheolaidd ac fel rhan o'r drefn arferol i rannu gwersi o ymarfer gyda rheolwyr ac ymarferwyr
- Cwblhau a gweithredu'r camau gweithredu sy'n dal heb eu cymryd o'n strategaeth Hyfforddiant Rhanbarthol Pob Oed a'r cynllun gweithredu 3 blynedd ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod
- Adolygu a gwella fformat cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion
- Gwella amseroldeb cwblhau a chau cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion

Arweinyddiaeth Gref

- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eirioli dros yr angen i gryfhau deddfwriaeth, polisi ac arweiniad diogelu cenedlaethol allweddol, pan ganfyddir diffygion a bylchau



- Datblygu a darparu sesiynau hyfforddi amlasiantaeth i roi cymorth i gyhoeddi a lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Byddwn hefyd yn adolygu ein timau diogelu oedolion a phlant gyda golwg ar roi gwasanaeth integredig mwy cadarn, effeithlon ac effeithiol ar waith.

Safon Ansawdd 4: Annog a chynorthwyo pobl i ddysgu, datblygu a chyfranogi mewn cymdeithas.

4.4.1 Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Roeddem yn bwriadu cydgynhyrchu model arloesol o gyfleoedd dydd, a fydd yn canolbwyntio'n fwy ar unigolion ac yn darparu canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- Roeddem hefyd yn bwriadu rhoi lleoliadau mewn coleg preswyl ar waith yn Sir Benfro fel bod pobl yn gallu aros yn eu cymuned leol wrth iddynt ddilyn addysg bellach.

4.4.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

Trawsnewid Darpariaeth Canolfannau Dydd

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth er mwyn cydgynhyrchu model newydd o gyfleoedd dydd. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid a chynghorwyr allweddol megis Peopletoo, y bwrdd partneriaeth anableddau dysgu a hyrwyddwyr anableddau dysgu unigol i adnabod arlwy sy'n seiliedig ar fodel Prif Ganolfan a Lloerennau.

Yn ystod mis Mawrth 2020 bu'n rhaid i ni atal gweithrediad canolfannau cyfleoedd dydd oherwydd y trefniadau ymateb i bandemig Covid 19. Er mwyn parhau i gefnogi defnyddwyr ein gwasanaethau bu'r timau'n gweithio'n greadigol ochr yn ochr â sefydliadau fel Pobl yn Gyntaf Sir Benfro i ddarparu gwasanaeth allgymorth. Mae cynnal cyswllt â phobl dros y ffôn, trwy gwisiau digidol, pecynnau creffttau a darparu rhaglenni gweithgareddau wedi cynnal ymgysylltiad pobl ac wedi darparu syniadau ar gyfer yr arlwy o ran gwasanaethau yn y dyfodol.

Trwy ymgysylltu parhaus mae'r model yn cael ei wella i feithrin mwy o gysylltiadau rhwng cymunedau, darparwyr a gomisiynir a gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r dyluniad estynedig yn ystyried creu 'Biwro' ar gyfer Cyfleoedd Dydd fel 'siop un stop' ymatebol i ysgogi gweithgareddau newydd ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau. Y nod yw creu gwasanaeth



hyblyg gan ei gwneud yn haws i unigolion newid yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud, ac felly cyflawni eu canlyniadau unigol lle mae gan bobl lais a rheolaeth.

Bydd y model, a ariennir trwy fecanwaith taliadau hyblyg newydd, yn darparu ystod fwy o ddewisiadau ar gyfer unigolion ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros eu cymorth.

Datblygiadau Coleg Preswyl

Fe sicrhaoim ni Gyllid Gofal Canolradd i ddatblygu pedair fflat, sy'n darparu llety â chymorth mewn datblygiad newydd yn Johnston. Dechreuodd gwaith i'w datblygu ym mis Tachwedd 2019.

Byddwn yn archwilio opsiynau eraill o ran llety i gefnogi ein harlwy addysgol leol yng Ngholeg Sir Benfro gyda golwg ar gynnal defnyddwyr gwasanaethau yn eu cymunedau lleol a lleihau nifer y lleoliadau addysgol preswyl y tu allan i'r Sir.

4.4.3 Ein Perfformiad

Gwasanaethau Oedolion

Data Ansoddol	Cyflawnw yd 2016/17	Cyflawnw yd 2017/18	Cyflawnw yd 2018/19	Cyflawnw yd 2019/20
Pobl sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant.	92%	95%	96%	96%

Gwasanaethau Plant

Data Meintiol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	Cyflawnwyd 2016/17	Cyflawnwyd 2017/18	Cyflawnwyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawnwyd 2019/20
% y plant sy'n derbyn gofal sydd, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, wedi profi un neu fwy nag un newid yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal na wnaethant ddeillio o drefniadau trosiannol	10%	12.6%	8.24%	10%	16.8%

4.4.4. Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Byddwn yn parhau i weithio ar wella ein cyfleoedd dydd a'n lleoliadau coleg preswyl i oedolion.



Safon Ansawdd 5: Cynorthwyo pobl i ddatblygu'n ddiogel ac i gynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.

4.5.1 Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

- Roeddem yn bwriadu datblygu unedau Ailalluogi ar safleoedd cartrefi gofal Havenhurst a Hillside i ddarparu cyfleuster ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty ac y mae angen cymorth seiliedig ar Ailalluogi arnynt.
- Roeddem yn bwriadu gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol i ystyried cyfleoedd o fewn y rhanbarth i ddatblygu cyfleuster rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth.
- Roeddem yn bwriadu defnyddio cyllid o'r Gronfa Gofal Integredig i agos canolfan asesu mamau a babanod.
- Roeddem yn bwriadu rhoi strategaeth ar waith i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Roeddem yn bwriadu parhau i gefnogi ein gofawyr, gan gydnabod eu rôl werthfawr.

4.5.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

4.5.2.1 Byngalos Gofal Canolradd.

Mae dwy uned Ailalluogi'n llwyr weithredol.

4.5.2.2 Cyfleuster Rhanbarthol i Blant ag Anghenion Cymhleth

Cafodd cynnig gwreiddiol ar gyfer y cyfleuster i blant ag anghenion cymhleth ei ddrafftio ym mis Hydref 2019. Mae'r cynnig yn ceisio ailddatblygu safle Rhyd Y Gors yn Sir Gaerfyrddin, i ddarparu gofal seibiant ynghyd â gofal mwy hirdymor. Cynigir bod tîm o fewn y ddarpariaeth gofal therapiwtig yn gweithio'n ddwys gydag addysgwyr yng nghyfnod 3 a 4 y ddarpariaeth ymddygiadol a llesiant yn ogystal â theuluoedd a gofawyr maeth. Yr ysgogiad bob amser fydd galluogi plant i fynd yn ôl i fyw gyda theuluoedd neu ofalwyr maeth gyda phecyn o hyfforddiant a chymorth priodol. Bydd systemau cadarn yn eu lle ar gyfer cydweithio effeithiol gyda phartneriaid o fewn Addysg a Gwasanaethau Plant i sicrhau asesu a chynllunio amserol ar gyfer plant. Bydd dull strategol integredig gydag Addysg a Gwasanaethau Plant a bydd yn gwneud y defnydd gorau o Wasanaethau Ar Ffiniau Gofal a'r Model Trawsnewid Ymddygiad 4 Cam. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer plant 11-18 oed. Er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiect mae'r partneriaid wedi bod yn ystyried y materion canlynol:

- Sefydlu Grŵp Llywio Rhanbarthol ar gyfer Anghenion Cymhleth, i symud y prosiect ymlaen o'r cynnig amlinellol cyfredol trwy ei gamau dylunio a datblygu mwy manwl, ac ymlaen i gael ei gwblhau.



- Datblygu cynllun refeniw manwl, sy'n ystyried amrywiaeth o elfennau ariannol y prosiect. Er enghraifft, dadansoddiad o'r costau ar gyfer unrhyw leoliadau lle caiff y rhain eu prynu ar y pryd; ffyrdd amgen y gall awdurdod lleol sy'n bartner sicrhau gwelyau yn y lleoliad yn ariannol; cynlluniau ar gyfer defnyddio unrhyw 'incwm' a gaiff ei greu gan y prosiect a sut y bydd anghenion seiliedig-ar-dystiolaeth pob partner yn cael eu hystyried ochr yn ochr â rhai'r partneriaid eraill.
- Sefydlu grŵp rheoli rhanbarthol a/neu banel dyrannu rhanbarthol sydd â chyfrifoldebau am wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu lleoedd gwag, atgyfeiriadau a pharu, ac sy'n ei gwneud yn bosibl cydymffurfio â rheoliadau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau i leoli plant y tu allan i'w sir gartref. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod gan y panel/grŵp hwn gysylltiadau gweithredol â phanel cymhleth pob awdurdod lleol ei hun. Efallai y bydd y prosiect hwn yn ysgogi trafodaeth am uno panel anghenion cymhleth y 3 sir yn un panel rhanbarthol, fel y ffordd fwyaf effeithiol o ystyried dyrannu gwasanaethau o'r adnodd.

4.5.2.3 Uned Mamau a Babanod

Rydym wedi dechrau cam 1af datblygu adnodd Rhieni a Babanod, i ddarparu galluoedd cymorth ac asesu lleol i ddechrau, gyda golwg ar ei ddatblygu'n uned asesu breswyl yn y tymor hwy. Mae hwn yn welliant sylweddol gan na fydd angen i famau adael Sir Benfro mwyach i gael mynediad at y mathau hyn o gyfleuster.

4.5.2.4 Lleihau Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal.

Rydym wedi bod yn datblygu Strategaeth 3 blynedd i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Er mwyn cyflawni gwelliannau byddwn yn cymryd y camau gweithredu canlynol trwy gydol 2020/21

- Bydd ein Tîm Rhianta Corfforaethol yn parhau i weithio gyda theuluoedd a phlant i ddirymu gorchmynion lle mae hynny'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.
- Rydym yn monitro nifer y plant sy'n derbyn gofal yn wythnosol ac fe gytunwyd na fyddwn yn gosod targed ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau heblaw gyda rhieni/perthnasau/ffrindiau. Y rheswm dros hyn yw bod rhagfynegi'r niferoedd sy'n cael eu rhoi mewn gofal, neu a allai ddod yn agos at gael eu rhoi mewn gofal, yn amhosibl, ac felly'n gwneud unrhyw ymgais i dargedu 'lleihad' yn amhosibl hefyd.
- Ffocws allweddol i ni yw sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli gyda rhieni/perthnasau/ffrindiau yn aros ar orchmynion gofal am yn hwy nag sy'n angenrheidiol i'w cadw'n ddiogel. I'r perwyl hwn rydym wedi pennu targedau lleihau ar



gyfer y rhain. (Gweler y tabl isod.) Fodd bynnag, rhaid derbyn fel gyda nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal, y bydd y categorïau hyn o leoliadau'n newid yn ôl risg ac angen asesedig.

- Cynigir, o fis Hydref 2020, penodi gweithiwr cymdeithasol ychwanegol ar sail fyrdymor, gan ddefnyddio cyllid Ar Ffiniau Gofal o'r Gronfa Gofal Integredig, er mwyn canolbwyntio ar ddirymu Gorchmynion Gofal mewn perthynas ag 8 o blant.
- O fis Awst 2020 bydd grŵp yn dechrau cwrdd i wella'r ddarpariaeth pecynnau a gwasanaethau cymorth i ofalwyr plant sy'n destun Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, er mwyn annog mwy o ofalwyr i fynd ar drywydd gorchmynion o'r fath, ac i roi hyder i CAFCASS a'r farnwriaeth bod hwn yn opsiwn mwy ffafriol na gosod plentyn gyda pherthynas ar orchymyn gofal.

4.5.2.5 Gofalwyr

Trwy gydol 2019/20 rydym wedi bod yn gweithio i gefnogi ein gofalwyr. Rydym wedi cymryd y camau gweithredu canlynol er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau:

- Rhoi cymorth Seibiant a Seibiant Brys;
- Adolygu ac ailystyried y model o ddarpariaeth seibiant a sut y gall ddiwallu anghenion gofalwyr yn well;
- Helpu pobl i gael gafael ar grantiau gofalwyr unigol a phasys hamdden
- Helpu gyda Gofal Ailalluogi Byrdymor (cymorth cyn asesu)

Rydym wedi hyrwyddo gofalwyr a'u rôl trwy nifer o fentrau:

- Trwy ennill Gwobrau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr;
- Trwy hyrwyddo rôl gofalwyr ar wardiau ysbytai;
- Trwy weithio gyda Chysylltwyr Cymunedol a sefydliadau gwirfoddol eraill;
- A thrwy ddatblygu'r cerdyn cydnabod a'r cerdyn brys Gofalwyr.

Rydym yn sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn y ffyrdd canlynol:

- Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr (PCISS)
- Grwpiau Gofalwyr (Dros 30 ledled y sir)
- Gwefan Cyngor Sir Penfro a'r cyfryngau

Ein hamcangyfrif yw bod gwybodaeth a chyngor penodol wedi'u targedu wedi cael eu darparu ar gyfer dros 3,000 o ofalwyr ledled Sir Benfro yn y flwyddyn 2019/20.



Yn Sir Benfro rydym yn cefnogi ystod eang o fentrau a sefydliadau i sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael mynediad at gymorth:

- Hafal Croesffyrdd sy'n darparu Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr Sir Benfro. Yn 2019/20 roedd dros 2600 o ofalwyr wedi cofrestru gyda hwy, y maent i gyd wedi cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad mewn perthynas â'u rôl ofalu.
- Mae Gweithredu dros Blant yn darparu Gwasanaeth Gofalwyr Ifainc. Fe wnaethant gefnogi 190 o ofalwyr ifainc hyd at 25 oed. Fe ddarparon nhw wybodaeth a chyngor ar gyfer pobl, yn ogystal â grwpiau cymorth, ymgynghoriadau 1:1, cymorth emosiynol a sesiynau cwnsela.
- Mae Caffi Menter Gymdeithasol The Hatch yn cynnig cyfle i bobl ifanc ag anableddau a gofalwyr ifainc wirfoddoli ac ennill sgiliau bywyd, profiad a chymwysterau gwerthfawr. Yn ogystal â gwneud ffrindiau a chynnig egwyl i ofalwyr teuluol o'u rôl ofalu.
- Darperir gofal seibiant byrdymor gan Hafal Croesffyrdd. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth ymatebol ac wedi'i gydlynu i ofalwyr am oedolion am gyfnod interim, pan ellir cwblhau asesiad gofalwr. Mae'r cymorth yn cynnwys darparu egwylion byrdymor er mwyn atal gofalwyr rhag chwythu eu plwc a galluogi gofalwyr i barhau yn eu rôl ofalu.
- Darperir gwasanaeth seibiant ar gyfer gofalwyr am bobl ag afiechyd meddwl a dementia gan Hafal Croesffyrdd.
- Mae Mind Sir Benfro'n rhoi cymorth i ofalwyr am bobl ag afiechyd meddwl gan roi cymorth mewn argyfwng, cymorth emosiynol a chymorth cymdeithasol trwy gynlluniau cyfeillio a gwasanaeth galw heibio.
- Rhoddir cymorth i ofalwyr am bobl â Chlefyd Parkinson gan Gymdeithas Clefyd Parkinson. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi gofalwyr a phobl â Chlefyd Parkinson trwy ddarparu sesiwn galw heibio wythnosol. Mae gofalwyr yn mynychu gyda'r rhai y maent yn rhoi gofal iddynt, ac yn gallu treulio amser gyda gofalwyr eraill sy'n deall eu profiadau ac yn gallu cynnig cymorth i'w gilydd.
- Cynllun a gyflawnir gan Volunteering Matters yw Ceir ar gyfer Gofalwyr. Mae'n darparu ceir ar gyfer gofalwyr di-dâl i fynd â hwy ar siwrneiau hanfodol.
- Mae gofalwyr yn cael hyfforddiant ar destunau i'w cefnogi yn eu rôl ofalu ac i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant hwy eu hunain. Darperir y cyrsiau hyn mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Rhoddir cymorth i ofalwyr ymgymryd â chyflogaeth trwy'r rhaglen Gweithffyrdd + a gyflawnir gan Gyngor Sir Penfro.
- Ceir dros 40 o grwpiau cymunedol sy'n cefnogi gofalwyr. Mae Cyngor Sir Penfro'n darparu cynllun grantiau bychain i ofalwyr sydd ar agor i grwpiau a sefydliadau cymunedol i wella'r cymorth y maent yn gallu ei roi i ofalwyr. Mae'r fenter hon yn cynyddu swm y ddarpariaeth sydd ar gael mewn cymunedau lleol.



Yn ystod 2019/2020, cwblhawyd 411 o asesiadau ar gyfer gofalwyr y gwnaeth 350 ohonynt arwain at baratoi cynllun gofal a chymorth gan roi ystyriaeth i anghenion a dyheadau'r gofalwyr.

Gwasanaeth i gefnogi gofalwyr ac ysgafnhau'r baich am gyfnodau byr yw gofal preswyl (seibiant) dros nos, Yn ystod 2019/2020, darparwyd 15,043 o nosweithiau o seibiant i ofalwyr Sir Benfro.

4.5.3 Ein Perfformiad

Gwasanaethau Plant

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% y plant a gynorthwywyd i barhau i fyw gyda'u teulu gartref	85%	80%	76%	76%	74.49%
% y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o leoliad gofal yn ystod y flwyddyn	28%	22%	16%	16%	18.5%
% y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	11%	13%	8%	10%	11.5%

4.5.4 Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu cyfleuster i blant ag anghenion cymhleth.
- Byddwn yn adnabod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth llety sydd gennym ar gael i Blant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal.
- Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd fel bod pobl yn gallu mwynhau lleoliadau byw â chymorth mewn coleg preswyl yn Sir Benfro.
- Byddwn yn parhau i gefnogi gofalwyr yn eu rôl trwy gefnogi ystod eang o fentrau.
- Byddwn yn adolygu ein darpariaeth seibiant



Safon Ansawdd 6: Gweithio gyda phobl a'u cynorthwyo i gyflawni mwy o lesiant economaidd, bod â bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

4.6.1 Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Caiff ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20 eu rhestru isod.

- Roeddem yn bwriadu rhoi cynllun llety lleol ar waith a hwnnw'n gysylltiedig â rhaglen gyfalaf a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig.
- Roeddem yn bwriadu adolygu ein Cymorth a Chyfleusterau Digartrefedd
- Roeddem yn bwriadu parhau i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth â chymorth i bobl ag anableddau.
- Roeddem yn bwriadu cyflawni ein Strategaeth Anableddau Dysgu a lansio ein Siarter Anableddau Dysgu.

4.6.2 I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

4.6.2.1 Adolygiad o'r Cyfleuster Digartrefedd

Fe gychwynnom ni adolygiad o'n darpariaeth a'n gwasanaethau ar gyfer pobl ddigartref. Cyflymwyd yr adolygiad ar ddechrau mis Mawrth pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r cyfleuster presennol yn addas i gartrefu pobl yn ystod yr achos o COVID oherwydd y defnydd o gyfleusterau a rennir.

Mae hostel pobl ddigartref Riverside wedi cael ei gau. Bydd ystod o opsiynau yn y dyfodol ar gyfer pobl ddigartref yn cael eu hystyried yn ystod 2020/21.

4.6.2.2 Cyflogaeth â Chymorth

Mae Diwydiannau Norman a Gweithffyrdd yn cynorthwyo pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor i gael gwaith â thâl. Mae dros 65 o bobl yn cael cyfleoedd i weithio. Mae gan lawer o'r rhain anabledd dysgu. Rydym wedi agor caffi a weithredir gan bobl ag anabledd dysgu ac awtistiaeth yng Nghanolfan Hamdden Aberdaugleddau. Mae'r caffi'n darparu 46 awr o waith â thâl i 6 o bobl bob wythnos ac mae hefyd yn darparu profiad gwaith ar gyfer 5 yn rhagor o bobl. Mae gan bawb sy'n gweithio yn y caffi gynllun hyfforddi ac maent yn dysgu sgiliau newydd. Meddai Jade, *"Mae gweithio yma wedi fy helpu i ddod mas o'm cragen ac mae gennyf fwy o hyder"*



Rydym hefyd wedi agor siop fferm sy'n cael ei rhedeg gan bobl ag anabledd dysgu ym Maenordy Scolton. Mae'r siop yn rhoi cyfle i bobl ag anabledd ddysgu sgiliau manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid. Mae'r siop yn gwerthu eitemau a wnaed gan Diwydiannau Norman a chan bobl yn Sir Benfro. Mae'r siop yn darparu 52 o oriau o waith â thâl i 6 o bobl yr wythnos.

Mae gweithgareddau newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2020 yn cynnwys gweithio gyda Paul Sartori a Maenordy Scolton

Mae Gweithffyrdd+ yn gweithio gyda phobl sydd dros 25 oed sydd ag anabledd dysgu neu awtistiaeth. Bydd y tîm yn siarad gyda chyflogwyr i ganfod y swyddi cywir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ac i wneud yn siŵr eu bod yn cael yr holl gymorth y mae ei angen arnynt. Yn ystod y flwyddyn mae Gweithffyrdd+ wedi cefnogi 157 o bobl ag anableddau ac wedi helpu 10 o bobl ag anabledd i ymgymryd â chyflogaeth. Mae hefyd wedi helpu 71 o bobl ag anabledd i wirfoddoli.

4.6.2.3 Strategaeth Anableddau Dysgu

Mae'r diagram Cylch Cymorth isod yn dangos ffocws allweddol gwaith ar gyfer y Strategaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2019/20.



Isod ceir rhestr o'r holl weithgareddau a gwblhawyd gan y Tîm sy'n gyfrifol am roi'r Strategaeth Anableddau Dysgu ar waith:

- Mae gwefan wedi cael ei datblygu. www.accesspembrokeshire.co.uk. Fe ysgrifennwyd y wefan gan bobl ag anabledd dysgu ac Awtistiaeth. Fe'i lansiodd ym mis Mai 2019
- Mae'r grŵp creu deunyddiau hawdd i'w darllen wedi gwneud amserlen bysiau â wynebâu clociau a lluniau i gefnog annibyniaeth. Fe wnaeth pobl ag anabledd dysgu helpu'r Gwasanaeth Iechyd a'r Cyngor i ddylunio'r amserlen newydd. Fe lansiodd yr amserlenni ym mis Rhagfyr 2019 ac maent ar gael ar bapur ac ar wefan Cyngor Sir Penfro.
- Mae'r Tîm Delfrydol yn siarad o blaid pobl ag anabledd dysgu. Grŵp o bobl ag anabledd dysgu o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ydyw. Mae aelodau'r Tîm Delfrydol yn gweithio gyda Grŵp y Rhaglen Anableddau Dysgu (GRHAD).

Fe lansiodd y Siarter Anableddau Dysgu ym mis Awst 2019. Fe ysgrifennwyd y Siarter Anableddau Dysgu gan bobl ag anabledd dysgu. Mae'r Siarter wedi cael ei llofnodi gan dros 100 o grwpiau a sefydliadau. Yn y dyfodol mae arnom eisiau dylunio Marc Ansawdd ar gyfer y Siarter

Rydym wedi cyflogi Hyrwyddwr Archwiliadau Iechyd, Courtney. Gwaith yr Hyrwyddwr Gwiriadau Iechyd yw hybu iechyd gwell ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Bydd Courtney yn siarad gyda meddygon teulu a nyrsys ac yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu da a defnyddio geiriau sy'n hawdd i'w deall. Bydd Courtney hefyd yn hyrwyddo archwiliadau iechyd blynyddol fel bod mwy o bobl ag anableddau dysgu'n gwybod amdanynt ac yn eu cael.

Rydym wedi cyflogi pedwar o Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu: James Salliss, James Dash, Rachel Bailey a Rhys Eynon

Mae gan bob un o'r hyrwyddwyr rôl arbennig ac maent wedi cwblhau ystod o weithgareddau fel a nodir isod.



James Dash – Hyrwyddwr Anableddau Dysgu - Cyfathrebu

“Rwyf wedi cyfweld â phobl ar gyfer swyddi yn y gwasanaethau Anableddau Dysgu.

Rwyf wedi helpu i wneud pethau’n hawdd i’w darllen.

Rwyf wedi gwneud hyfforddiant Awtistiaeth.

Fi yw cadeirydd y Tîm Delfrydol.

Rwy’n dweud wrth bobl am y Siarter Anableddau Dysgu.

Rwy’n gweithio gyda llawer o bobl o wahanol sefydliadau.”

Rachel Bailey - Hyrwyddwr Anableddau Dysgu - Cyflogaeth

“Rwy’n gweithio yn Diwydiannau Norman.

Hon yw fy swydd gyntaf.

Rwy’n cael hyfforddiant mewn ffordd cam wrth gam.

Rwy’n mwynhau mynd i ddigwyddiadau a siarad gyda phobl.

Mae Mynediad i Waith yn fy nghefnogi gyda theithio a chyfathrebu.

Mae fy ngwaith wedi golygu bod y Cyngor wedi dod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

Fe enillom ni ‘Wobr Cyflogwyr Ysbrydoledig’ yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd.

Rwy’n mwynhau fy swydd.

Rwy’n teimlo’n fwy hyderus.”

Rhys Eynon - Hyrwyddwr Anableddau Dysgu - Cymuned

“Rwy’n casglu storïau am sut y mae bywydau pobl wedi newid.

Gelwir y rhain yn storïau am y “Newid Mwyaf Arwyddocaol”.

Rwy’n siarad gyda phobl i ganfod beth sydd wedi bod yn dda ac yn wael am y pethau y maent wedi’u gwneud.

Mae’r storïau’n dweud wrthym sut y mae’r gwaith yr ydym yn ei wneud wedi newid bywyd person.

Byddaf yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth sydd wedi gweithio neu beidio.

Bydd y Cyngor neu’r Gwasanaeth Iechyd yn newid gwasanaethau i’w gwneud yn well.”

4.6.2.4 Safonau’r Gymraeg

Mae Safonau’r Gymraeg yn berthnasol i’r holl feysydd y mae’r Cyngor yn gweithio ynddynt ac yn golygu y gall trigolion ledled Cymru ddisgwyl yr un dull o gymhwysu’r Gymraeg mewn gwasanaethau ledled y wlad, i sicrhau bod yr iaith yn cael ei thrin yr un fath â’r Saesneg a bod pob Cyngor yn cynnig y cyfle i bobl gael eu gwasanaethau gennym, yn ogystal â chael eu gwasanaethau gan y rhai a ariennir gennym, yn Gymraeg.

Yn y deuddeng mis diwethaf, mae gwasanaethau wedi bod yn gwreiddio prosesau newydd i ateb y gofynion. Bellach ceir cyfeiriadur o staff Cymraeg sy’n cael ei ddiweddarau trwy’r system Adnoddau Dynol.



Mae'r holl ddeunyddiau a gyhoeddir ar gael i drigolion yn Gymraeg ac yn Saesneg, e.e. Gwefan y Cyngor, papurau Pwyllgorau, Hysbysebion Swyddi a'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio ar roi'r cynllun gweithredu 'Mwy Na Geiriau' ar waith mewn ymateb i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gan adeiladu ar adroddiad blynyddol y llynedd rydym yn parhau i ddatblygu ein cynnig gweithredol o gyswllt trwy gyfrwng y Gymraeg, hyrwyddo'r iaith a chodi ymwybyddiaeth ohoni ymhlith staff a darparu cyfleoedd i gyflogaeth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

O ran datblygu llety priodol rydym wedi adolygu'r Asesiad Strategol o Anghenion a'r Galw am Lety a gyhoeddwyd ar gyfer Pobl Hŷn a phobl ag Anabledd Dysgu (ar gael ar wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru). Rydym hefyd wedi adolygu gwybodaeth sydd ar gael o'r Rhwydwaith Dysgu a Gwella Tai (LIN). Rhwydwaith soffistigedig yw hwn sy'n dwyn ynghyd weithwyr proffesiynol ym meysydd tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i enghreifftio datrysiadau tai arloesol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Mae canfyddiadau ein hymchwil wedi dylanwadu ar ddatblygiad cynllun llety lleol.

4.6.3 Ein Perfformiad

Gwasanaethau Oedolion

Data Ansoddol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19
Pobl sy'n dweud eu bod yn byw yn y cartref iawn iddynt hwy	87%	93%	93%
Pobl sy'n dweud eu bod wedi cael gofal a chymorth trwy eu dewis iaith	94%	99%	99%
Pobl sy'n dweud eu bod wedi dewis byw mewn cartref preswyl	62%	70%	66%

Gwasanaethau Plant

Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant 12 mis ar ôl gadael gofal	80%	64%	50%	60%	43.5%



Data Meintiol	Cyflawn wyd 2016/17	Cyflawn wyd 2017/18	Cyflawn wyd 2018/19	Targed 2019/20	Cyflawn wyd 2019/20
% yr holl rai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant 24 mis ar ôl gadael gofal	55.5%	76.5%	38.98%	45%	53%
% yr holl rai sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd	21.21%	17.6%	21.42%	20%	6.48%

4.6.4. Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

Prosiect Grantiau Adeiladau i Ofalwyr Maeth

Byddwn yn rhoi prosiect ar waith i edrych ar ddatblygu polisi a fydd yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol ddarparu grantiau ar gyfer gofalwyr maeth i godi estyniadau a gwneud gwelliannau i'w cartrefi i ddarparu capasiti estynedig ar gyfer lleoliadau neu i allu gofal am bobl ifanc benodol, gan osgoi'r angen am leoliadau allanol arbenigol, drutach.

Byddwn yn parhau i ddatblygu llety â chymorth a chyfleoedd cyflogaeth â chymorth arloesol. Mae parhau i roi'r Strategaeth Anableddau Dysgu ar waith gyda'n Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu'n flaenoriaeth allweddol i ni hefyd.



5. Sut Yr Ydym Yn Gwneud Yr Hyn Yr Ydym Yn Ei Wneud

5.1. Ein Gweithlu a Sut yr Ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Ein blaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau i gyflawni ein hamcanion a bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael eu cefnogi gan staff sy'n fedrus, yn gymwys ac yn cael eu gwerthfawrogi. Ym mis Mawrth 2020 sefydlwyd cynlluniau wrth gefn i sicrhau bod hyfforddiant hanfodol a oedd yn ofynnol i roi gofal diogel ac effeithiol i bobl agored i niwed yn dal i gael ei ddarparu. Datblygwyd rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar ymateb i argyfwng ar gyfer staff mewnol ac allanol, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u hadleoli a'u recriwtio dros dro i mewn i leoliadau gofal i helpu i ymdopi ag effaith yr ymateb i bandemig y Coronafeirws. Roedd hyn yn cynnwys cyrsiau hanfodol newydd ar godi a chario a gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel a ddarparwyd yn rhithwir, yn ogystal â chyfres o fodiwlau e-ddysgu.

Mae Cynllun y Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2018 – 2021 yn atgyfnerthu pwysigrwydd darparu cyfleoedd i'n staff gymhwyso'n weithwyr cymdeithasol i ymateb i'r heriau o ran recriwtio a chadw. Eleni fe recriwtiwyd pump o bobl ychwanegol i swyddi gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant i hyfforddi ochr yn ochr â'r wyth o fyfyrwyr mewnol a oedd eisoes wedi'u secondio ar raglen gradd gwaith cymdeithasol, gan olygu bod cyfanswm o 13 o ddarpar weithwyr cymdeithasol yn hyfforddi.

Mae cynllun y gweithlu hefyd yn nodi'r sylw parhaus yr hyn yr ydym yn ei gael o bob rhan o'r DU am roi Arwyddion Diogelwch ar waith. Mae gennym Gynllun Gweithredu cynhwysfawr ar gyfer Arwyddion Diogelwch ac un o'n blaenoriaethau allweddol yw hyrwyddo'r dull Arwyddion Diogelwch ymhellach.

Mae recriwtio a chadw staff gofal uniongyrchol mewnol ac a gomisiynwyd yn dal i fod yn her. Er bod effaith Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd a gwerth ein gweithwyr gofal cymdeithasol, mae'r sector wedi bod dan bwysau enfawr mewn amgylchiadau sy'n anghyfarwydd ac yn newid yn gyflym, gyda phwysau staffio a newidiadau mewn ymarfer i fodloni canllawiau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael effaith ar wasanaethau. Trwy ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, ehangu ein defnydd o dechnoleg ddigidol a gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor, rydym wedi gallu addasu ein dulliau o ddarparu hyfforddiant hanfodol, rhaglenni sefydlu a chymorth parhaus ar gyfer recriwtiaid newydd a staff a adleoliwyd i weithio mewn gofal cartref a phreswyl fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng.

Mae angen llwybrau gyrfa da ym maes gofal cartref a gofal iechyd, ac mae angen i lwybrau fod yr un mor ddeniadol i gyflogeion sy'n fodlon yn eu rôl gyfredol yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am ddatblygiad gyrfa i rôl uwch. Mae'r gwaith o ddatblygu'r llwybrau hyn yn mynd rhagddo ac yn



dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni. Mae defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft Twitter a Facebook, wedi bod yn amhrisiadwy ac yn llwyfan llwyddiannus ar gyfer hysbysebu a hyrwyddo ein gwasanaethau yn ystod Covid-19, ac mae hyn yn parhau i fod yn ddull llwyddiannus ar gyfer cyfathrebu gyda'n staff. Wrth edrych tua'r dyfodol byddwn yn parhau i ymgysylltu â staff, gan ddysgu sut orau i wneud hyn o'r adborth a gawn.

Bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i gwrdd â'r holl recriwtiaid newydd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o'u rhaglen sefydlu yn y Gyfarwyddiaeth ac i ymgysylltu â staff trwy gyfarfodydd tîm gan amcanu at wella'r cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a chyflogaion rheng flaen.

Rydym hefyd yn ailddatblygu ardal wedi'i neilltuo i recriwtio gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol ar ein gwefan i ddenu recriwtiaid posibl o'r tu allan i'r Sir, a fydd yn cysylltu â gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

5.1.1. Beth oeddem ni'n bwriadu ei wneud y llynedd?

Isod ceir rhestr o'r camau gweithredu allweddol yr oeddem yn bwriadu eu cymryd y llynedd.

- Cyflwyno hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd.
- Parhau i ganolbwyntio ar 'dyfu ein talent ein hunain' o ran Gweithwyr Cymdeithasol a staff sydd wedi cymhwyso'n Weithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP).
- Darparu cwrs Ymarfer Uwch mewn Arwyddion Diogelwch dros 5 diwrnod ar gyfer gweithwyr cymdeithasol er mwyn iddynt ddatblygu dealltwriaeth fanylach am y dull a chynyddu eu sgiliau i gynnal asesiadau risg sy'n seiliedig ar gryfderau.
- Cymhwyster Lefel 7 Aseswr Budd Pennaf ar gyfer saith gweithiwr cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth ac ystyriaeth fanwl ynghylch yr wybodaeth a'r sgiliau arbenigol y mae eu hangen i gwblhau Asesiadau Budd Pennaf yn unol ag arfer gorau.
- Hyfforddiant Diweddarau ar Amddiffyn Plant i weithwyr cymdeithasol – a hwnnw'n rhoi sylw i negeseuon cyfredol o Adolygiadau Ymarfer Plant, 'Arwyddion Diogelwch' mewn Gwaith Achosion Amddiffyn Plant, Rhannu Gwybodaeth a 'Gweithio'n Well Gyda'n Gilydd'.
- Profi Dementia – cynnal dau ddigwyddiad ar gyfer 84 o aelodau o staff gofal cymdeithasol sy'n tywys mynychwyr trwy gyfres o ymarferion seiliedig ar brofiadau sy'n rhoi mewnwelediad cryf i'r profiad o fyw gyda dementia.
- Bydd Sir Benfro'n cynnal digwyddiad arddangos Arwyddion Diogelwch fel rhan o gynhadledd ranbarthol yn ystod yr wythnos ddiogelu ym mis Tachwedd ar gyfer cynrychiolwyr amlasiantaeth.
- Rhaglen 3 blynedd i ddatblygu'r gweithlu comisiynu gyda chwrs cychwynnol yn cael ei ddarparu ym mis Mawrth ar gyfer staff comisiynu.



5.1.2. I ba raddau wnaethom ni lwyddo a pha wahaniaeth wnaethom ni?

Bob blwyddyn rydym yn cynnal y dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi ac yn defnyddio'r canfyddiadau i flaenoriaethu'r hyfforddiant a ddarperir. Fe ddarparom ni ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer staff mewnol, partneriaid rhanbarthol, darparwyr allanol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ffurfiol tuag at gymwysterau proffesiynol, megis cyrsiau prifysgol mewn gwaith cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth. I sicrhau hyfforddiant mwy cyson a chost-ffeithiol ar gyfer y gweithlu rydym wedi cynyddu ein darpariaeth e-Ddysgu i alluogi cyfleoedd dysgu i gael eu cyrchu'n gyflym ac yn effeithiol o weithleoedd cyflogaion.

Caiff gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd y llynedd eu rhestru isod:

- Cynhaliwyd digwyddiad recriwtio ar y cyd rhwng meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 gyda bron i 100 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad. Roedd gan y timau gwaith cymdeithasol oedolion a gofal plant, gofal maeth a 2 ddarparwr gofal annibynnol stondinau. Roedd ymgyrch hyrwyddo ar Facebook gan Gyngor Sir Penfro lle cyrhaeddodd y postiadau 44,000 o bobl a lle gwylodd 24,000 o bobl y fideo.
- Fe enillodd dau hyfforddwr mewnol achrediad i gyflwyno'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu mewn perthynas â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i 149 o aelodau o staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Mae Cyngor Sir Penfro wedi perfformio'n dda gyda 96% o'i weithlu'n cwblhau'r Modiwl e-Ddysgu Ymwybyddiaeth Gyffredinol o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Mae'r modiwl e-Ddysgu cyfunol ar 'Ddiogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion' yn dal i fod yn hygyrch i staff gofal cymdeithasol rheng flaen gan gael ei gwblhau 407 o weithiau yn ystod y flwyddyn hon.
- Fe wnaeth pedwar aelod o staff y gwasanaethau cymdeithasol a secondiwyd i wneud Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored gymhwyso eleni a llwyddodd pob un o'r pedwar i gael swyddi gweithwyr cymdeithasol ar draws y gwasanaeth.
- Cwrs Ymarfer Uwch mewn Arwyddion Diogelwch dros 5 diwrnod wedi'i gyflwyno i 100 o weithwyr cymdeithasol.
- Fe gynhaliodd Sir Benfro ddigwyddiad arddangos Arwyddion Diogelu mewn cynhadledd ranbarthol yn ystod yr wythnos ddiogelu ym mis Tachwedd, gyda 200 o gynrychiolwyr amlasiantaeth yn bresennol.
- Fe wnaeth tri Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy gymhwyso eleni ac fe gofrestrodd 2 arall ar y rhaglen ym mis Medi 2019.



Darparwyd ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu eraill yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Mynychodd 414 o gynrychiolwyr ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddiant diogelwch gan gynnwys Rheoli Honiadau yn erbyn Oedolion, Prosesau ac Ymatebion Amddiffyn Plant, Iechyd Meddwl ac Atal Hunanladdiad, Atgyfeiriadau Diogelu Oedolion a Chanllawiau Trothwy a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
- Fe wnaeth 17 o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso'r Dyfarniad Ôl-raddedig mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol.
- Fe gofrestrodd 8 o ymarferwyr gwaith cymdeithasol ar y cymhwyster Aseswr Budd Pennaf ac fe gwblhaodd 2 y cymhwyster Asesu Galluedd i Wneud Penderfyniadau.
- Pedair sesiwn o Sgiliau Cofnodi Effeithiol a chadw cofnodion ar gyfer 60 o aelodau o staff gofal cymdeithasol ar draws y sector.
- Fe wnaeth y sesiynau Bws Teithio Rhithwir a Phrofi Dementia ddarparu hyfforddiant ymarfer ystyrlon sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn gofal Dementia ar gyfer 112 o bobl.
- Eleni fe gwblhaodd 119 o bobl y modiwl e-Ddysgu Ymwybyddiaeth o Ddementia erbyn 31/03/20.
- Mynychodd 127 o staff mewnol ac amlasiantaeth yr Hyfforddiant Arwyddion Diogelwch.

Yn 2019/20 fe hyfforddom ni 4,750 o bobl. Roedd hyfforddiant wyneb yn wyneb yn dal i fod yn boblogaidd cyn i'r pandemig daro, ac er gwaethaf hyn fe wnaeth 2,698 o staff mewnol, 316 o staff y sector preifat a 124 o staff y sector gwirfoddol fynychu cyrsiau. Yn ychwanegol at hyn cafodd modiwlau e-Ddysgu eu cwblhau 1,612 o weithiau sy'n dangos pwyslais parhaus ar y ffordd hon o ddysgu.

5.1.3. Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2020/21

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 fel a ganlyn:

- Oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol i frwydro yn erbyn ymlediad Covid-19, byddwn yn canolbwyntio ar ddulliau darparu amgen megis Community Care Inform a datblygu ein Llwyfan Dysgu Rhithwir ni ein hunain i ddatblygu llawer o adnoddau digidol newydd ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau.
- Parhau i fonitro, cyflawni a diweddarau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu gwireddu.
- Cwblhau datblygiad ardal wedi'i neilltuo i recriwtio gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol ar y wefan, i ddenu recriwtiaid posibl o'r tu allan i'r Sir a chysylltu â Gofalwn.Cymru.



- Darparu ystod o gyfleoedd hyfforddi mewn sgiliau iechyd meddwl i arfogi'r gweithlu i sicrhau arfer gorau.
- Cynorthwyo staff perthnasol i fod â digon o sgiliau i gynnal Asesiadau dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Asesiadau Budd Pennaf, Asesiadau dan y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ac Asesiadau Galluedd Meddyliol Cymeradwy.
- Darparu hyfforddiant effeithiol mewn sgiliau cofnodi achosion.
- Datblygu cyrsiau e-ddysgu ar gyfer sgiliau 'gofal uniongyrchol' mwy cyffredinol.
- Cwrs sgiliau goruchwylio ar gyfer aelodau newydd o staff.
- Hyfforddiant mewn sgiliau llys i grwpiau perthnasol o staff.
- Iechyd meddwl a phobl ifanc – sut i gefnogi'r rhai ag anhwylderau bwyta, hunan-fri isel a.y.b.
- Darparu cyfres o gyrsiau hyfforddi ar gyfer staff ailalluogi a darparwyr gofal cymdeithasol i gefnogi darpariaeth gofal mwy effeithlon.

5.5. Ein Hadnoddau Ariannol a Sut yr Ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Fel mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi wynebu pwysau ariannol sylweddol yn 2019/20. Ym maes Gofal Cymdeithasol fe wnaethom barhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae'r tabl isod yn dangos cost darparu gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Benfro dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Rydym wedi parhau i weld galw a chostau cynyddol, oherwydd demograffeg poblogaeth sy'n heneiddio, cymhlethdod cynyddol defnyddwyr gwasanaethau a chodiadau parhaus mewn costau gyda chodiadau yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn newidyn na ellir ei reoli sy'n arwain at bwysau sylweddol o ran costau.

Cost Flynyddol Darparu Gofal Cymdeithasol						
	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
	Gwirion- eddol	Gwirion- eddol	Gwirion- eddol	Gwirion- eddol	Gwirion- eddol	Cyllideb wreiddiol net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Plant	13,364	13,165	12,697	13,308	13,584	14,395
Gofal i Oedolion	44,241	45,700	47,894	51,697	53,989	55,082

Yn 2019/20 y targed oedd cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £5.6m mewn Gwasanaethau Oedolion a £0.6m mewn Gwasanaethau Plant. Mewn gwirionedd fe gyflawnom ni werth £2.37m o arbedion effeithlonrwydd mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a £0.1m mewn Gwasanaethau Plant, sy'n golygu bod pwysau sylweddol yn cael eu dwyn ymlaen i mewn i 20/21.



Cyrraedd ein Targedau Effeithlonrwydd ar gyfer 2019/20			
2019/20	Targedau Effeithlonrwydd (Gan gynnwys Llithriant)	Arbedion Effeithlonrwydd a Ragamcanir	Sut y Cyflawnom ni'r Arbedion Effeithlonrwydd
	£ (M)	£ (M)	
Gwasanaethau Oedolion	£5.6	£2.372	Trwy adolygu pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'r Cynllun Gofal a chynnig gwerth am arian. Trwy sicrhau bod y ffrydiau cyllid priodol yn cael eu defnyddio yn unol ag anghenion cleientiaid. Trwy adolygu'r galw i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y pecyn gofal mwyaf priodol. Trwy gasglu dyledion sydd heb eu talu.
Gwasanaethau Plant	£0.107	£0.1	Trwy Adolygu Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod pecynnau'n cyflawni yn unol â chynlluniau gofal, yn ogystal ag adolygu taliadau trydydd parti.

Yn 2020/21 mae angen i ni gyflawni yn erbyn rhaglen lleihau costau o fwy na £3.9 miliwn ar draws yr adran gyfan gan barhau i weithio tuag at wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn trwy barhau i weithredu'r prosiectau a restrir ar y tabl isod. Yn ychwanegol at y prosiectau hynny byddwn hefyd yn parhau i gynnal cyswllt â defnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a sefydliadau eraill i sicrhau bod pawb y canfuwyd mewn asesiad fod angen iddynt dalu tuag at eu gofal yn gwneud hynny mewn modd amserol. I sicrhau tegwch byddwn yn rhoi ein polisïau adfer dyledion ar waith yn llawn yn unol â'r Ddeddf.

2020/21	Targedau Effeithlonrwydd	Sut yr ydym yn Bwriadu Cyflawni'r Arbedion Effeithlonrwydd yn 2020/21
	£ (M)	
Gwasanaethau Oedolion	£3.246	Trwy adolygu pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'r Cynllun Gofal a chynnig gwerth am arian. Trwy sicrhau bod y ffrydiau cyllid priodol yn cael eu defnyddio yn unol ag anghenion cleientiaid. Trwy adolygu'r galw i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y pecyn gofal mwyaf priodol. Trwy gasglu dyledion sydd heb eu talu.



2020/21	Targedau Effeithlonrwydd	Sut yr ydym yn Bwriadu Cyflawni'r Arbedion Effeithlonrwydd yn 2020/21
	£ (M)	
Gwasanaethau Plant	£0.67	Trwy Adolygu Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod pecynnau'n cyflawni yn unol â chynlluniau gofal, yn ogystal ag adolygu taliadau trydydd parti.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig dros y flwyddyn ddiwethaf i gynllunio a datblygu prosiectau gan weithio ar draws y rhanbarth a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd ac yn darparu gwasanaethau gwell.

5.6. Partneriaethau a Chydweithio

Rydym yn parhau i archwilio a hybu cyfleoedd ar gyfer cydweithio'n lleol ac yn rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer cwsmeriaid a chyflawni arbedion.

Trwy gydweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, rydym wedi gallu darparu gwasanaethau cymorth mwy integredig. Rydym yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gyda BIPHDd ar ystod o fentrau ac i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Rydym wedi parhau i ddatblygu partneriaeth ranbarthol gref ag awdurdodau cyfagos ac i chwarae rhan fawr e.e. lletya swyddi ar gyfer y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a chefnogi Powys o ran eu prosesau diogelu. Mae ein grŵp gweithredol diogelu lleol yn trafod yr holl faterion sy'n ymwneud â diogelu yn Sir Benfro. Mae'r grŵp yn cwrdd yn chwarterol â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Coleg, Addysg, Gwasanaethau Ieuencid a Gofal Cymdeithasol.

Gwasanaeth comisiynu a rennir ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Ni sy'n arwain y ffordd o ran datblygu Model Comisiynu Integredig. Mae ein swydd Pennaeth Comisiynu'n pontio Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

Cynrychiolir Sir Benfro ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yng Ngorllewin Cymru. Mae gan y BPRh gyfrifoldeb am y canlynol:

- Gwella canlyniadau i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofawyr;
- Hybu'r broses o integreiddio gwasanaethau allweddol megis y rhai i bobl hŷn, pobl ag anabledd dysgu, gofawyr a phlant ag anghenion cymhleth;
- Sefydlu trefniadau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau penodol a threfniadau cyllid cyfun lle y bo'n briodol a;
- Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gyflawni dyletswyddau craidd megis darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a gwasanaethau eiriolaeth.



Mae'r BPRh yn dod ag uwch arweinwyr o'r GIG, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ynghyd gyda defnyddwyr gwasanaethau, gofawyr a'r sector annibynnol. Mae hyn yn hybu cydweithio ac yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu hintegreiddio yng Ngorllewin Cymru. Mae'r BPRh yn cynhyrchu cynllun blynyddol. Mae gan y BPRh rôl hefyd o ran cyflawni yn erbyn cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach (Mehefin 2018). Mae'r BPRh yn gyfrifol am sicrhau bod arloesi lleol yn tyfu yn unol â'r anghenion ledled eu rhanbarthau a chynnig modelau llwyddiannus i'w mabwysiadu'n ehangach ledled Cymru.

Wrth edrych tua'r dyfodol bydd y BPRh yn:

- Hwyluso'r broses o feithrin perthnasoedd cryf â'r ystod o sefydliadau sy'n cyfrannu at wireddu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer iechyd a gofal;
- Defnyddio'u Cynlluniau Ardal fel llwyfan cadarn ar gyfer cyllidebau cyfun a threfniadau cydgomisiynu y bydd gan dai rôl fwy blaenllaw ynddynt;
- Llywio datblygiad modelau newydd ar gyfer iechyd a gofal ar lefel leol, gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd, gan gydweithio gyda chlystyrau a chanolbwyntio ar ofynion mewn perthynas â'r Gymraeg a;
- Chael eu harchwilio ar y cyd o ran eu heffeithiolrwydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

5.7. Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol a Chorfforaethol

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Weinyddu. A hithau'n cwmpasu pob un o naw portffolio'r Cabinet mae'r ddogfen yn cynnwys cynllun ar gyfer pob maes a'r gwaith a fydd yn cael ei wneud rhwng 2018 a 2022. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n rhan o gylch gorchwyl y Cyngor. Tessa Hodgson, yn amlygu ffocws parhaus ar atal gan nodi hefyd bod diogelu a recriwtio rhagor o ofalwyr maeth yn flaenoriaethau blaenllaw i'r gwasanaeth.

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer pob adran Gofal Cymdeithasol yn cwrdd â'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Ofal Cymdeithasol yn fisol er mwyn iddynt allu ei briffio o ran datblygiadau yn y gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019/20 yn cynnwys amcan llesiant ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae'n nodi y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar atal: helpu pobl i gadw rheolaeth ar eu bywydau eu hunain yn hytrach na dod yn ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol.

Caiff cynnydd yn erbyn amcanion corfforaethol a'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol ei fonitro gan y Cabinet, y Cyngor a'n Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Sefydlwyd pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ym mis Mehefin 2019. Mae hwn wedi gwella'r trefniadau ar gyfer craffu ar ofal cymdeithasol ac yn annog aelodau i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o fonitro perfformiad a chynllunio ar gyfer y dyfodol.



Y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol

Mae trawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer ei gwsmeriaid, gan adnabod gostyngiadau mewn costau a ffyrdd o greu mwy o incwm, yn allweddol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol.

Yn ystod 2019, fe ailbennwyd ffocws y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol yn seiliedig ar dair thema allweddol – Technoleg, Diwylliant a Pherthnasoedd. Roedd hyn wedi'i fwriadu i wneud y trefniadau a'r strwythur llywodraethu'n fwy eglur, gwella cyfathrebu a sicrhau bod newid yn cael ei gyflawni'n gyflym. Mae nifer o brosiectau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u halinio â ffrydiau gwaith y Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol.



6. Mynediad at Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ar 6 Ebrill 2016.

Gwefan Llywodraeth Cymru: Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy>

Codau ymarfer a chanllawiau statudol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?lang=cy>

Gwefan Cyngor Sir Penfro ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

<https://www.pembrokeshire.gov.uk/social-services-and-health>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. Asesiad Llesiant Sir Benfro

<https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/asesiad-llesiant>

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. Cynllun Llesiant Sir Benfro

<https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/cynllun-lles>

Cynllunio er mwyn Gwella a Chynllun Corfforaethol Cyngor Sir Penfro

<https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-er-mwyn-gwella/cynllun-corfforaethol>

Gofal Cymdeithasol Cymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/>

Deddfwriaeth yng Nghymru, hyb gwybodaeth a dysgu:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan>

Gofal Cymdeithasol Cymru, Cod Ymarfer:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/codau-ymarfer-a-chanllawiau>

Arolygiaeth Gofal Cymru. Adroddiadau Arolygu Rheoleiddwyr

<https://arolygiaethgofal.cymru/>

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth

<http://www.wwcp.org.uk/wp-content/uploads/2017/03/Asesiad-Poblogaeth-Gorllewin-Cymru-Mawrth-2017.pdf>

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

<http://www.pavs.org.uk/>

Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

<http://www.hywelddalhb.wales.nhs.uk/>

